Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016–2017 a Chynllun Strategol 2017–2018

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016–2017 a Chynllun Strategol 2017–2018

Adroddiad Blynyddol 2016–2017 a Chynllun Strategol 2017–2018 a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50(2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 52(7) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

*Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 17 Gorffennaf 2017*

HC 154

© **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2017)**

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd priod ddeiliad yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.nmc.org.uk

Print ISBN 9781474146692
Gwe ISBN 9781474146708

ID 15061709 07/17

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

Rhagair ..... 5

Ein rôl..... 6

Adolygiad o berfformiad 2016–2017 ..... 7

Cynllun Strategol 2017–2018..... 17

Adolygiad ariannol ..... 20

Adroddiad cydnabyddiaeth ..... 23

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon ..... 32

Datganiad llywodraethu blynyddol ..... 34

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ..... 47

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd ..... 49

Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ..... 52

Y Fantolen ar 31 Mawrth 2017..... 53

Datganiad o lif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017..... 54

Cysoni incwm net/(gwariant) â llif arian parod net o weithgareddau gweithredu..... 55

Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo..... 56

Nodiadau i’r Cyfrifon ..... 57

The Nursing and Midwifery Order 2001 (Form of Accounts) Determination 2010..... 84

## Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2016–2017. Eleni daethom gam yn agosach unwaith eto i gyflawni'r nod a geir yn ein Strategaeth ar gyfer 2015–2020 i ddod yn rheoleiddiwr dynamig, arloesol ac arweiniol.

Bu'r flwyddyn gyntaf o ailddilysu, y newid pwysicaf a welwyd hyd yma yn y ffordd yr awn ati i reoleiddio, yn llwyddiant ysgubol. Rhaid i ni ddiolch i'n nyrsys a'n bydwragedd, sydd wedi derbyn y broses newydd yn llawn brwdfrydedd, am eu rhan yn hyn o beth; mae eu hagwedd gadarnhaol a phroffesiynol yn glod iddynt. Mae cefnogaeth barhaus ein rhanddeiliaid ledled y DU hefyd wedi bod yn hanfodol a chaiff ei gwerthfawrogi'n fawr.

Mae llwyddiannau fel y broses ailddilysu wedi ennyn hyder ynom ni a'n gwaith. Cadarnhawyd hyn gan ein hadolygiad gorau erioed gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, lle gwnaethom gyrraedd pob un o'r 24 o Safonau Rheoleiddio Da, namyn un.

Yn 2016–2017 gwnaethom gytuno i gais y Llywodraeth i reoleiddio proffesiwn newydd, sef nyrsys cyswllt. Mae'r cyfrifoldeb newydd hyn yn un sylweddol. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'r proffesiwn nyrsio, rhanddeiliaid a phartneriaid er mwyn sicrhau bod yr aelod newydd hwn o'r teulu nyrsio yn ymgartrefu'n llwyddiannus.

Eleni bu addysg yn flaenoriaeth bwysig. Mae'r ffordd y mae nyrsys a bydwragedd yn gweithredu wedi newid gryn dipyn dros y degawd diwethaf a bydd yn newid hyd yn oed yn fwy dros y 10 mlynedd nesaf. Rhaid sicrhau bod eu haddysg a'u hyfforddiant yn eu paratoi i ddiwallu anghenion cleifion a'r cyhoedd yn y dyfodol. Gyda chymorth ein rhanddeiliaid ledled y pedair gwlad, rydym wedi cymryd camau breision. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynigion o ran addysg nyrsys bellach ar waith. Mae'r broses o lunio safonau newydd ar gyfer bydwragedd y dyfodol yn mynd rhagddi a bydd yn cael cryn sylw gennym yn y flwyddyn i ddod.

Daw newidiadau hirddisgwyliedig i'n deddfwriaeth addasrwydd i ymarfer i rym yn ddiweddarach eleni. Bydd y rhain yn ein helpu i ddiogelu'r cyhoedd yn gyflymach drwy allu gwneud penderfyniadau ar y cam cynharaf posibl.

Mae'r agenda sydd o'n blaenau yn llawn ac yn heriol. Rydym yn effro i'r posibilrwydd o ofynion newydd neu annisgwyl. Yn ôl yr arfer, bydd diogelu'r cyhoedd ar frig yr agenda wrth gyflawni ein gweithgareddau a gwneud ein penderfyniadau.

Hoffem ddiolch i aelodau'r Cyngor a'n staff am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Diolchwn i'n rhanddeiliaid hefyd am eu cefnogaeth. Gyda'n gilydd, parhawn i weithio i ddiogelu'r cyhoedd mor effeithiol ag y gallwn.

Y Fonesig Janet Finch
Cadeirydd, NMC
5 Gorffennaf 2017

Jackie Smith
Prif Weithredwr a Chofrestrydd, NMC
5 Gorffennaf 2017

## Ein rôl

1 Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw'r rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth annibynnol i Gymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd ac rydym yn ceisio sicrhau bod ein holl waith yn sicrhau budd i'r cyhoedd. Rydym yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor.

2 Ein rôl ers y dechrau fu diogelu'r cyhoedd. Amlygwyd hyn hyd yn oed yn fwy gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015. Prif amcan y Cyngor wrth arfer ei swyddogaethau yw diogelu'r cyhoedd, sy'n cynnwys yr amcanion canlynol:

2.1 Amddiffyn, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.

2.2 Hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.

2.3 Hybu a chynnal safonau proffesiynol priodol ac ymddygiad aelodau'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.

3 Ein cyfrifoldebau rheoleiddio yw:

3.1 Cadw cofrestr o bob nyrs a bydwraig sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru.

3.2 Pennu safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad fel y gall nyrsys a bydwragedd ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel yn gyson drwy gydol eu gyrfaoedd.

3.3 Cymryd camau i ymdrin ag unigolion yr amheuir eu priodoldeb neu eu gallu i roi gofal diogel, fel y gall y cyhoedd ymddiried yn ansawdd a safonau gofal a roddir gan nyrsys a bydwragedd.

4 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (ASP) yn goruchwylio ein gwaith ac yn cynnal adolygiad o'n perfformiad bob blwyddyn. Roeddem yn falch o gael ein hadolygiad gorau erioed gan yr ASP ym mis Rhagfyr 2016, lle gwnaethom gyrraedd pob un o'r 2016 o Safonau Rheoleiddio Da, namyn un.

## Adolygiad o berfformiad 2016–2017

5 Mae *Strategaeth 2015–2020: Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid* yn ein herio i sicrhau bod ein dull rheoleiddio yn un arloesol a blaengar a all addasu i newidiadau ym maes gofal iechyd a'r galwadau ar nyrsys a bydwragedd.

6 Mae'n nodi pedair blaenoriaeth strategol i gyflawni ein prif amcan o ddiogelu'r cyhoedd:

6.1 Rheoleiddio effeithiol

6.2 Defnyddio gwybodaeth

6.3 Cydweithredu a chyfathrebu

6.4 Sefydliad effeithiol

7 Mae ein *Cynllun corfforaethol 2016–2017* yn nodi ein blaenoriaethau a'n hymrwymiadau cyflawni penodol er mwyn sicrhau ein bod yn llwyddo i gyflawni'r strategaeth.

**Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol**

Mae'n rhaid i ni gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio statudol craidd yn gyson dda er mwyn diogelu'r cyhoedd ac ennyn hyder y cyhoedd. Byddwn yn parhau i wella ein swyddogaethau craidd, gan ganolbwyntio ar gyflymder, gwasanaeth cwsmeriaid ac ansawdd ein penderfyniadau. At hynny, bydd angen i ni ymateb i ofynion newydd a newid deddfwriaethol.

### Cofrestru ac Ailddilysu

8 Rydym yn cadw cofrestr o nyrsys a bydwragedd a gaiff ymarfer yn y DU yn gyfreithlon. Ar 31 Mawrth 2017, roedd dros 690,000 o nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr. Dim ond y sawl sy'n dangos eu bod yn cyrraedd ein safonau a all gael eu cynnwys ar ein cofrestr ac aros arni. Mae ein prosesau cofrestru yn cynnwys sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud cais i ymuno â'r gofrestr y cymwysterau cywir a, lle bo angen, sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Gall cyflogwyr ac aelodau o'r cyhoedd gadarnhau statws cofrestriad unrhyw nyrs neu fydwraig yn y DU ar ein gwefan.

9 Bu'r flwyddyn gyntaf o ailddilysu, y newid mwyaf i'r ffordd rydym yn rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yn ein hanes, yn llwyddiant ysgubol. Mae ailddilysu yn gofyn i bob nyrs a bydwraig ar ein cofrestr ddangos yn fynych y gallant ddarparu gofal mewn modd diogel, effeithiol a phroffesiynol. Mae hyn yn golygu bod y cyhoedd yn derbyn gofal gan weithwyr proffesiynol sy'n myfyrio ar eu hymarfer ac yn dysgu ac yn gwella'n gyson. Cafwyd ymateb calonogol i'r broses ailddilysu gan y proffesiynau ac erbyn 31 Mawrth 2017 roedd mwy na 200,000 o nyrsys a bydwragedd wedi cael eu hailddilysu'n llwyddiannus.

10 Bu'r adborth ar y broses ailddilysu yn ystod y flwyddyn gyntaf hon yn gadarnhaol iawn, gyda nyrsys, bydwragedd a chyflogwyr yn canmol y broses am fod yn un syml a buddiol.

11 Bu cefnogaeth ein rhanddeiliaid ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn allweddol wrth sicrhau llwyddiant ailddilysu yn ystod y flwyddyn gyntaf hon. Rydym yn ddiolchgar am eu cefnogaeth a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda nhw yn y dyfodol er mwyn nodi unrhyw feysydd i'w gwella a sicrhau bod nyrsys a bydwragedd yn parhau i gael eu cefnogi drwy gydol y broses.

12 Rydym wedi cyhoeddi adroddiadau chwarterol sy'n dangos sut mae ailddilysu yn gweithio. Ceir rhagor o wybodaeth a gwaith dadansoddi yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar ailddilysu, a gyhoeddwyd ar wahân.

13 Cydnabyddwn y bydd yn cymryd amser i weld beth yw effaith ailddilysu ar ofal cleifion. Caiff hyn ei werthuso dros gyfnod o dair blynedd.

**Gweithgarwch arall sy'n ymwneud â Chofrestru**

14 Rydym wedi parhau i wella ein gwasanaethau ar-lein ar gyfer nyrsys a bydwragedd. Eleni cynigiwyd mwy o hyblygrwydd drwy gyflwyno'r opsiwn i dalu'r ffi cofrestru flynyddol fesul chwarter. Erbyn 31 Mawrth 2017, roedd mwy na 53,000 o nyrsys a bydwragedd wedi achub ar y cyfle hwn i ledaenu cost cofrestru.

15 Cydnabyddwn gyfraniad amhrisiadwy nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr a hyfforddwyd y tu allan i'r DU; maent yn chwarae rhan hanfodol yng ngweithlu iechyd a gofal y DU. Eleni cymerwyd y camau canlynol i wneud pethau'n fwy hyblyg i'r rhai sydd am ymuno â'n cofrestr o'r tu allan i'r DU, tra'n parhau i sicrhau mai dim ond y rhai â'r sgiliau a'r wybodaeth gywir sy'n llwyddo i wneud hynny.

15.1 Sefydlwyd dwy ganolfan newydd yn y DU i gynnal profion ar gymhwysedd nyrsys a bydwragedd a hyfforddwyd y tu allan i'r UE a'r AEE. Lleolir y canolfannau newydd ym Mhrifysgol Ulster a Phrifysgol Oxford Brookes.

15.2 Gwnaethom gynnal nifer o weithdai i randdeiliaid i adolygu ein prosesau tramor. Diben hyn oedd nodi cyfleoedd i symleiddio ein prosesau, ei gwneud yn haws i ymgeiswyr eu dilyn a'u cysoni'n gliriach â phrosesau fisa'r DU. Gwnaed nifer o newidiadau ac mae mwy yn yr arfaeth.

16 Parhawyd i berfformio'n gryf drwy gydol y flwyddyn yn erbyn ein prif ddangosyddion perfformiad ym maes cofrestru. Yn 2016–2017 gwnaethom brosesu ychydig o dan 29,000 (2015–2016: dros 30,000) o geisiadau cychwynnol i gofrestru. O'r rhain:

16.1 roedd 20,039 (2015–2016: 19,133) gan ymgeiswyr a hyfforddwyd yn y DU.

16.2 roedd 6,374 (2015–2016: 9,389) gan ymgeiswyr a hyfforddwyd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

16.3 roedd 2,400 (2015–2016: 2,145) gan ymgeiswyr a hyfforddwyd y tu allan i'r AEE.

17 Gwnaethom gwblhau 98.2 y cant o geisiadau cofrestru'r DU o fewn 10 diwrnod, gan ragori ar ein targed o 95 y cant o fewn 10 diwrnod. Gwnaethom gwblhau 99.2 y cant o geisiadau cofrestru'r DU o fewn 30 diwrnod.

18 Gwnaethom gwblhau 94 y cant o geisiadau cofrestru'r UE/tramor o fewn 68 diwrnod, gan ragori ar ein targed o 90 y cant o fewn 68 diwrnod.

19 Ar gyfartaledd, deliodd ein canolfan gyswllt â 1,350 o alwadau bob dydd, a gynyddodd i 1,800 ar adegau cofrestru ac adnewyddu brig (2015–2016: 1,635 yn cynyddu i 1,916).

## Addysg

20 Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd drwy osod safonau sy'n meithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau proffesiynol sydd eu hangen ar nyrsys a bydwragedd i ddarparu gofal o ansawdd uchel pan fyddant yn ymuno â'n cofrestr. Addysg yw un o'n blaenoriaethau strategol ac, ym mis Mawrth 2016, cymeradwyodd y Cyngor raglen pedair blynedd i ddiwygio ein safonau addysg. Ein prif ffocws yn 2016–2017 fu datblygu safonau nyrsio cyn cofrestru newydd, a arweinwyd gan y Fonesig Jill Macleod Clark. Holwyd barn rhanddeiliad yn y pedair gwlad yn sylweddol wrth i ni dasgu syniadau a datblygu safonau drafft, yn barod ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn 2017.

21 Gwnaethom gynnydd wrth ddatblygu Fframwaith Addysg newydd ar gyfer sefydliadau sy'n addysgu ac yn hyfforddi nyrsys a bydwragedd y dyfodol. Bydd y fframwaith newydd arfaethedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn 2017, ynghyd â'r safonau nyrsio cyn cofrestru newydd arfaethedig.

22 Gwnaethom hefyd gomisiynu adolygiad sylfaenol annibynnol o sut y gellid sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth yn y dyfodol, gan arwain at opsiynau a gaiff eu hystyried gan y Cyngor yn 2017.

23 Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth a phleidiau eraill ar y brentisiaeth gradd nyrsio a gynlluniwyd i alluogi mwy o bobl i ymuno â'r proffesiwn nyrsio ac y disgwylir ei chyflwyno yn Lloegr ym mis Medi 2017. Bydd y rhai sy'n dilyn y brentisiaeth newydd yn cael eu hyfforddi i gyrraedd safonau cyn cofrestru'r NMC, gan sicrhau bod pob nyrs newydd sy'n ymuno â'n cofrestr yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad cywir i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddeall trefniadau prentisiaethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

24 Mae gwaith hefyd yn dechrau ar safonau cyn cofrestru newydd ar gyfer bydwragedd y dyfodol, a arweinir gan yr Athro Mary Renfrew FRSE. Mae'r gwaith o gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu ar gam cynnar wedi dechrau a dechreuir drafftio'r safonau bydwreigiaeth newydd yn 2017.

## Nyrsys Cyswllt

25 Ym mis Ionawr 2017, cytunodd y Cyngor, mewn egwyddor, i gais gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd y dylai'r NMC reoleiddio rôl newydd nyrsys cyswllt. Wrth wneud ei benderfyniad, prif ystyriaeth y Cyngor oedd diogelu'r cyhoedd. Byddwn yn datblygu'r safonau a'r gofynion addysgol ar gyfer nyrsys

cyswllt fel bod y rôl yn gam tuag at ddod yn nyrs gofrestredig, i'r rhai sydd am gamu ymhellach ac a all wneud hynny.

26 Yn dilyn y penderfyniad hwn, rydym wedi cyflwyno rhaglen waith dwy flynedd er mwyn sicrhau ein bod yn barod i ddechrau cofrestru'r nyrsys cyswllt newydd cyntaf ar ddechrau 2019.

27 Mae ehangu ein rôl yn y fath fodd yn gyfrifoldeb newydd sylweddol ac yn dangos hyder ynom ni ac yn ein gwaith. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid ledled y DU, gan gynnwys yr Adran Iechyd, er mwyn sicrhau bod y rôl newydd hon o fewn y teulu nyrsio yn cael ei datblygu a'i gweithredu'n llwyddiannus.

## Sicrhau ansawdd addysg

28 Ar 31 Mawrth 2017, roedd 79 o Sefydliadau Addysg Cymeradwy (SACau). Ers i'r newidiadau i gyllid myfyrwyr gael eu cyhoeddi, sy'n dileu'r cap ar leoedd nyrsio a bydwreigiaeth yn Lloegr, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymholiadau gan sefydliadau newydd sydd am fod yn SAC.

29 Ar 31 Mawrth 2017, roedd 916 o raglenni wrthi'n cael eu cymeradwyo. Rydym wedi gweld cynnydd o ran cymeradwyo llwybrau gwahanol i addysg nyrsio cyn cofrestru. Mae SACau yn ymateb i dirwedd iechyd a gofal newidiol, anghenion y gweithlu lleol a'r symudiad tuag at ehangu mynediad drwy greu amrywiaeth o lwybrau i ddod yn nyrs gofrestredig raddedig. Mae hyn yn cynnwys modelau seiliedig ar waith, llwybrau rhan amser hyblyg a phrentisiaethau nyrsio.

30 Cyflawnwyd gwaith monitro ar sail risg ac yn ystod blwyddyn academaidd 2015–2016 ymwelwyd ag 16 o SACau. Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, dysgu ymarfer oedd y maes a berai'r pryder mwyaf. Mae ymweliadau monitro ar gyfer blwyddyn academaidd 2016–2017 bellach ar waith a rhennir y canlyniadau yn ystod hydref 2017.

31 Fel y nodwyd yn *Sicrhau ansawdd addysg ac awdurdodau goruchwylio lleol – Adroddiad blynyddol 2015–2016* (Tachwedd 2016), rydym wedi atgyfnerthu gofynion adrodd ac wedi mynd ati i weithio gyda SACau ar y ffactorau sy'n sbarduno adroddiadau eithriadol ynghylch diogelwch y cyhoedd y tu hwnt i gylchoedd adrodd arferol. Mae'r ffaith bod SACau yn diweddaru risgiau yn well yn golygu ein bod yn rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol gyda rheoleiddwyr proffesiynol a rheolwyr systemau eraill ac yn gallu triongli gwybodaeth gyda rhannau eraill o'r NMC fel y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr ac Addasrwydd i Ymarfer.

## Bydwreigiaeth

32 Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd er mwyn cyflwyno newid deddfwriaethol i ddileu goruchwylio bydwreigiaeth o'n cyfrifoldebau statudol. Gwnaethom ofyn am y newid hwn yn dilyn nifer o ddigwyddiadau critigol ac adroddiadau annibynnol dilynol a gadarnhaodd fod y trefniadau blaenorol yn ddiffygiol yn strwythurol o safbwynt diogelu'r cyhoedd. Daeth y newid i rym ar 31 Mawrth 2017. Gwnaethom weithio'n agos gyda'r Prif Swyddogion Nyrsio ac arweinwyr bydwreigiaeth yn y pedair gwlad er mwyn sicrhau bod trefniadau

newydd nad ydynt yn rheoleiddiol o ran goruchwyliaeth glinigol yn cael eu cyflwyno'n ddidrafferth.

33 Yn sgil y newid i'n deddfwriaeth, peidiodd Awdurdodau Goruchwylio Lleol â bod ddiwedd mis Mawrth 2017, a gyda hynny ein gweithgarwch sicrhau ansawdd.

34 Roedd monitro hynt ac effaith newid deddfwriaethol a chefnogi'r broses o gyflwyno'r trefniadau newydd yn effeithiol yn brif ffocws i'r Pwyllgor Bydwreigiaeth, a roddodd gyngor i'r Cyngor drwy gydol y flwyddyn. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd ar ran y Cyngor ynghylch yr holl risgiau oedd yn gysylltiedig â'r broses reoleiddio i'r cam pontio, a sut y rheolid y risgiau hynny.

35 Cafodd y gofyniad statudol am Bwyllgor Bydwreigiaeth ei ddileu gan newid deddfwriaethol ar 31 Mawrth 2017. Rydym yn ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor Bydwreigiaeth am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn ac, yn arbennig, i Gadeirydd ac aelod Cyngor y Pwyllgor. Yn ei adroddiad olaf i'r Cyngor rhoddodd y Pwyllgor Bydwreigiaeth sicrwydd fod cyfrifoldeb moesol y Cyngor i gefnogi proses bontio esmwyth o ran gweithgareddau yn sgil y newid deddfwriaethol wedi cael ei gyflawni.

36 O fis Ebrill 2017 bydd y Cyngor yn uniongyrchol gyfrifol am reoleiddio bydwreigiaeth, yn unol â dull y Cyngor o reoleiddio nyrsio. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod llais bydwragedd yn cael ei glywed o hyd. Byddwn yn gwneud mwy o ddefnydd o ddigwyddiadau gwrando, ymgysylltu dwyffordd, tasgluoedd arbenigol, digwyddiadau i randdeiliaid a gweithdai er mwyn cyflwyno dull mwy effeithiol o ddatblygu safonau a pholisi rheoleiddio. Yn ei adroddiad olaf i'r Cyngor roedd y Pwyllgor Bydwreigiaeth yn hyderus yn null y Cyngor o geisio cyngor ym maes bydwreigiaeth a chlywed llais y proffesiwn hwnnw yn y dyfodol.

37 Ym mis Tachwedd 2015, sefydlodd y Prif Weithredwr Banel Bydwreigiaeth er mwyn sicrhau bod 'llais bydwragedd' yn dal i gael ei glywed ac yn rhan annatod o'r sefydliad yn dilyn y newid deddfwriaethol. Caiff y Panel ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac ymhlith ei aelodau mae Coleg Brenhinol y Bydwragedd, y pedwar Prif Swyddog Nyrsio, cynrychiolwyr academaidd bydwreigiaeth lefel uwch, cynrychiolwyr lleyg defnyddwyr arbenigol, yn ogystal â'r ddau aelod o'r Cyngor sy'n gyn-aelodau o'r Pwyllgor Bydwreigiaeth. Parhaodd y Panel Bydwreigiaeth i weithredu ochr yn ochr â'n Pwyllgor Bydwreigiaeth, gan edrych yn benodol ar reoleiddio bydwreigiaeth yn y dyfodol. Bydd y Panel yn parhau i gwrdd yn ystod 2017–2018 er mwyn cynghori ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio bydwreigiaeth.

## Addasrwydd i ymarfer

38 Mae ein hadroddiad blynyddol ar addasrwydd i ymarfer yn nodi sut rydym wedi cyflawni ein swyddogaethau statudol. Yn yr adroddiad hwn rydym yn nodi'r prif ddatblygiadau yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

39 Roeddem yn falch o weld y Llywodraeth yn ymrwymo i newidiadau deddfwriaethol rydym wedi pwyso arni i'w gwneud ers tro. Byddant yn ein galluogi i foderneiddio ein prosesau addasrwydd i ymarfer. Caiff y newidiadau eu cyflwyno yn 2017, a fydd yn ein galluogi i ddiogelu'r cyhoedd yn well drwy weithredu mewn ffordd fwy cymesur a chanolbwyntio adnoddau ar yr achosion mwyaf difrifol. Byddwn yn

gweithio gyda chyrff proffesiynol ac undebau er mwyn sicrhau yr ymgysylltir yn gynnar i ddelio ag achosion llai dyrys yn gyflymach ac yn fwy priodol.

40 Os bydd diogelwch y cyhoedd mewn perygl uniongyrchol a difrifol, gallwn orfodi gorchymyn interim i gyfyngu ar y ffordd y gall nyrs neu fydwraig ymarfer neu ei atal rhag ymarfer tan ein bod wedi ystyried ei achos yn llawn. Parhaodd ein perfformiad yn erbyn ein targed i sicrhau 80 y cant o orchmynion interim o fewn 28 diwrnod uwchlaw 90 y cant drwy gydol y flwyddyn.

41 Gwnaethom gwblhau 76 y cant o achosion o fewn 15 mis, ar gyfartaledd, sydd ychydig islaw ein targed o 80 y cant. Digwyddodd hyn yn sgil rhoi blaenoriaeth i hynt achosion hŷn fel y cynlluniwyd. Dros y 12 mis nesaf byddwn yn canolbwyntio ar wella amseroldeb ymhellach drwy ddefnyddio ein pwerau newydd, ymgysylltu'n gynnar a gwella ein systemau rheoli achos.

42 Yn ystod y flwyddyn mae ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr wedi parhau i ehangu ei weithgareddau. Rhoddodd llinell gymorth newydd gyngor i tua 2,000 o bobl ar amrywiaeth o faterion. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i feithrin cydberthnasau â holl ymddiriedolaethau a byrddau'r GIG yn y DU, yn ogystal â dros 20 o'r darparwyr gofal iechyd sector annibynnol mwyaf yn y DU.

43 Ynghyd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, rydym wedi gofyn i'r ASP gynnal adolygiad annibynnol o'r gwersi a ddysgwyd wrth i ni ymdrin ag achosion addasrwydd i ymarfer Bae Morecambe. Rydym eisoes wedi nodi a chyflwyno amrywiaeth o fesurau pwysig a gynlluniwyd i sicrhau ein bod yn ymdrin ag achosion yn well yn y dyfodol, ond edrychwn ymlaen at unrhyw welliannau pellach y gall yr ASP ein helpu i'w nodi os wynebwn ddigwyddiadau trasig tebyg yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad yn cychwyn ar ôl i'r achosion addasrwydd i ymarfer olaf ddirwyn i ben yn 2017 a chaiff y canfyddiadau eu cyhoeddi'n llawn.

**Blaenoriaeth strategol 2: Defnyddio gwybodaeth**

Drwy ddefnyddio tystiolaeth o ddata a gwaith ymchwil yn well byddwn yn meithrin dealltwriaeth o'r hyn a wnawn, gan ein helpu i fod yn fwy effeithiol, tryloyw a chymesur. Fel cam cyntaf, mae angen i ni sicrhau bod ein systemau yn helpu i wella'r broses o gasglu a defnyddio ein data ein hunain a gwybodaeth o ffynonellau eraill.

44 Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar lefel weithredol. Er enghraifft, cyflwynwyd codau i gyflogwyr fel bod achosion addasrwydd i ymarfer yn gallu cael eu nodi yn erbyn cyflogwyr unigol. Hefyd, rydym wedi cynllunio a datblygu fframwaith cod honiadau er mwyn nodi'r pryderon rheoleiddiol a atgyfeiriwyd. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi patrymau a thueddiadau fel y gallwn ddelio â chyflogwyr mewn ffordd fwy rhagweithiol a helpu i leihau nifer yr atgyfeiriadau diangen neu nodi tueddiadau y gall fod angen ymchwilio iddynt ymhellach.

45 Yn y tymor hwy bydd ein rhaglen drawsnewid yn cynnig y cyfle i feithrin y gallu, y systemau a'r adnoddau a fydd yn ein galluogi i wneud mwy o gynnydd. Yn ystod 2017–2018 byddwn yn gwneud rhywfaint o waith cychwynnol ar ddatblygu ein gallu strategol.

**Blaenoriaeth strategol 3: Cydweithredu a chyfathrebu**

Byddwn yn parhau i wella ansawdd ein cydberthnasau er mwyn helpu i gyflawni ein diben cyffredinol i ddiogelu'r cyhoedd. Er mwyn helpu i wneud hyn byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cyffredinol. Bydd ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a chyflogwyr yn flaenoriaeth. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cyflawni nodau cyffredin.

46 Rydym wedi parhau i gynnal gweithgareddau ymgysylltu helaeth mewn lleoliadau gwahanol ac yn y pedair gwlad drwy gydol y flwyddyn ar amrywiaeth o faterion.

47 Gwnaed gwaith gennym gyda grwpiau cleifion a'r cyhoedd, gan gynnwys trafodaethau grŵp ffocws gyda grwpiau o gleifion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gwnaethom gynnal digwyddiad ar y cyd â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol i grwpiau cleifion a'r cyhoedd, a roddodd ddull ychwanegol i ni gael adborth gan y cyhoedd er mwyn llywio ac atgyfnerthu ein gwaith.

48 Parhaodd ailddilysu i gael cryn dipyn o sylw wrth i ni ymgysylltu'n allanol, a bu'r Prif Weithredwr ac uwch aelodau o staff yn siarad mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn er mwyn meithrin dealltwriaeth. Wrth i ni ymbaratoi ar gyfer y cynnydd sylweddol yn nifer y nyrsys a bydwragedd a fyddai'n cael eu hailddilysu ym mis Medi 2016, anfonwyd llif cyson o wybodaeth ailddilysu i sefydliadau rhanddeiliad allweddol er mwyn cefnogi nyrsys, bydwragedd a chyflogwyr ar yr adeg brysur hon. Yn dilyn profiad gweithredol ac adborth gan gwsmeriaid gwnaethom gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r safonau a'r ddogfen ganllaw *Sut i ailddilysu â'r NMC* (Mawrth 2017).

49 Cydweithiwyd â nifer o'n rhanddeiliaid strategol allweddol wrth ddatblygu ein cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer ein rhaglen addysg. Fel rhan o hyn sefydlwyd Fforwm Cynghorol Rhanddeiliaid Addysg yn cynnwys uwch randdeiliaid o bob cwr o'r DU. Mae'r fforwm, a wnaeth gwrdd ddwywaith yn ystod ail hanner y flwyddyn, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n rhanddeiliaid ac yn gyfle i geisio barn a helpu i lunio ein cynigion.

50 Buom yn cyfathrebu mewn amryw o ffyrdd er mwyn helpu i gyflwyno'r trefniadau newydd ar gyfer goruchwylio bydwragedd yn llwyddiannus ym mhedair gwlad y DU. Ar gam cyntaf y gwaith hwn cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu uniongyrchol â bydwragedd a rhanddeiliaid eraill er mwyn eu hannog i gymryd rhan yn ymgynghoriad y Llywodraeth. Canolbwyntiodd yr ail gam ar helpu bydwragedd, rhanddeiliaid a grwpiau menywod a chleifion i ddeall y newidiadau wrth iddynt ddechrau ymsefydlu. Fel rhan o hyn gwnaethom weithio gyda'r byrddau trosi ac arweinwyr bydwreigiaeth yn y pedair gwlad i gydlynu negeseuon cyfathrebu a chyfeirio bydwragedd at ffynonellau gwybodaeth am y trefniadau newydd ledled y DU.

51 Hefyd, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ledled y DU â'r nod o ymgysylltu â'r cyrff proffesiynol ac undebau er mwyn trafod diwygio deddfwriaeth addasrwydd i ymarfer.

**Cydweithredu o fewn yr amgylchedd iechyd ehangach**

52 Rydym yn cydnabod ein bod yn rhan o system ehangach sy'n gweithredu er budd y cyhoedd ac i'w ddiogelu. Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a chyfrannu at ystod eang o fentrau a grwpiau fel rhan annatod o'n gwaith. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr o'r cyrff proffesiynol ac undebau ac yn ymgysylltu'n eang â gweithwyr proffesiynol ar bob lefel, yn ogystal ag addysgwyr a chyflogwyr.

53 Mae ein ein Grŵp Cynghori Strategol Proffesiynol yn dwyn ynghyd uwch nyrsys a bydwragedd o amrywiaeth o leoliadau ymarfer ledled y DU. Cafodd y grŵp y wybodaeth ddiweddaraf gennym am amrywiaeth o fentrau gan gynnwys ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr, ein rhaglen addysg, nyrsys cyswllt a newidiadau i addasrwydd i ymarfer a goruchwylio bydwragedd.

54 Cynhaliodd yr Adran Iechyd gyfres o ddigwyddiadau er mwyn trafod y broses o ddiwygio system reoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn Llundain, Leeds, Glasgow, Caerdydd a Belfast, a arweiniwyd gan gyrff rheoleiddio a chyflogwyr y GIG. Ni a arweiniodd y digwyddiad yn Llundain ym mis Gorffennaf 2016, yn ogystal â chymryd rhan yn yr holl gyfarfodydd eraill.

55 Gyda'n cydweithwyr o Iwerddon a Sbaen gwnaethom drefnu cyfarfod Rhwydwaith Rheoleiddwyr Nyrsio Ewrop a gynhaliwyd ym Madrid ym mis Hydref 2016. Trafodwyd cydfuddiannau, gan gynnwys safbwyntiau a rannwyd ynghylch diweddaru safonau gofynnol yr UE ar hyfforddi nyrsys gofal cyffredinol yn y dyfodol a phwysigrwydd parhau i gydweithredu'n agos ar ôl i'r DU adael yr UE.

**Blaenoriaeth strategol 4: Sefydliad effeithiol**

Byddwn yn datblygu ein systemau, ein hadnoddau a'n diwylliant ymhellach er mwyn ein helpu i ddatblygu'n rheoleiddiwr deallus, cydweithredol a blaengar.

## Trawsnewid yr NMC

56 Ddechrau 2016, dechreuodd y Cyngor weithio ar raglen drawsnewid oedd yn cynnwys: y gweithlu, pobl a diwylliant; llety; a busnes a thechnoleg er mwyn cefnogi'r uchelgais yn ein Strategaeth i fod yn rheoleiddiwr dynamig a blaengar. Datblygwyd y gwaith hwn o ran ei gynllun, ei adnoddau a'i gychwyn yn 2016–2017. Ym mis Mawrth 2017 cytunodd y Cyngor, mewn egwyddor, i fwrw ati â cham cyntaf y rhaglen, yn amodol ar ei ystyried ymhellach yn 2017–2018.

## Staff ac adnoddau dynol

57 Mae strwythur Gweithredol newydd y Prif Weithredwr a'r pum Cyfarwyddwr wedi'i lenwi'n raddol yn ystod 2016–2017, ac mae'r tîm parhaol llawn bellach ar waith. Hefyd mae arweinyddiaeth fwy sefydlog ar waith i gefnogi'r Weithrediaeth.

58 Yn ystod 2017–2018 gwneir gwaith i ddatblygu Strategaeth Pobl er mwyn darparu fframwaith cyffredinol i lywio mentrau pobl yn gadarnhaol o fewn y sefydliad cyfan.

59 Un fenter allweddol fydd adolygu'r rhesymau dros drosiant staff a barhaodd yn uchel ar 24.6 y cant ar 31 Mawrth 2017.

60 Cawsom gyfradd ymateb o 75 y cant i'n harolwg staff blynyddol yn 2016, a wnaeth geisio barn staff dros dro yn ogystal â staff parhaol y tro hwn. Er i gyfraddau ymgysylltu â staff cyffredinol wella i 67 y cant (65 y cant yn 2015), nododd canlyniadau'r arolwg nifer o gyfleoedd, yr achubwn arnynt drwy ddatblygu ein Strategaeth Pobl a'r cynllun ategol.

61 Roedd ein rhaglen Dysgu a Datblygu yn cynnwys ystod o weithgareddau i helpu i ddatblygu gallu ym mhob maes. Atgyfnerthir y rhaglen ar gyfer 2017-2018, gyda ffocws penodol ar gefnogi rheoli newid.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

62 Ein nod yw hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gyflawni ein swyddogaethau a darparu ein gwasanaethau fel rheoleiddiwr a chyflogwr. Fel y nodwyd yn Strategaeth 2015–2020 anelwn at gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gweithgareddau craidd. Ein nod yw cael ein cydnabod fel rheoleiddiwr a chyflogwr teg, ac rydym am i'n rhanddeiliaid fod yn hyderus ein bod yn cynnwys pawb ac yn eu trin yn deg. Rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn monitro cynnydd yn rheolaidd yn erbyn ein cynllun gweithredu ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Yn ystod 2016–2017 gwnaethom y canlynol:

62.1 Datblygu a dechrau gweithredu Fframwaith newydd ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant: system llywodraethu a monitro er mwyn cynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein busnes a rheoli perfformiad yn y sefydliad.

62.2 Cyhoeddi ymchwil ar hynt a chanlyniadau addasrwydd i ymarfer nyrsys a bydwragedd o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

62.3 Parhau i werthuso a monitro gweithgareddau'r NMC er mwyn deall yr effaith ar wahanol grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, er enghraifft drwy ein hasesiadau o effaith ar gydraddoldeb newidiadau deddfwriaethol i addasrwydd i ymarfer, ein rhaglen addysg a'n gwerthusiad o ailddilysu.

62.4 Cyflwyno hyfforddiant tuedd anymwybodol i banelwyr addasrwydd i ymarfer a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

62.5 Parhau i wella'r data ar amrywiaeth sydd gennym ar gyfer nyrsys a bydwragedd.

63 Cydnabyddwn fod gennym fwy i'w wneud y maes hwn a byddwn yn parhau i wneud gwelliannau yn 2017–2018, yn enwedig y ffordd rydym yn ymgorffori Fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein gweithgareddau beunyddiol.

## Rhyddid gwybodaeth a diogelu data

64 Fel corff cyhoeddus rydym yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Cafwyd 311 o geisiadau diogelu data yn 2016–2017 (dros 270 yn 2015–2016). Yn 2016–2017 cafwyd 545 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (519 yn 2015–2016). Gwnaethom ymateb i 523 o'r rhain a chafodd y gweddill eu tynnu'n ôl.

65 Os na fydd aelod o'r cyhoedd yn fodlon ar yr ymateb i'w gais, gall ofyn am adolygiad mewnol / gwneud cwyn. Bydd swyddog nad oedd ynghlwm wrth y penderfyniad gwreiddiol yn ymdrin â hyn. Cynhaliwyd 25 o adolygiadau mewnol yn 2016–2017, a chadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol i beidio â datgelu yn achos 20 ohonynt. Mewn pum achos, arweiniodd yr adolygiad at ddatgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

66 Gwnaed saith cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (naw yn 2015–2016) dros y cyfnod hwn. Mewn chwe achos cytunodd y Comisiynydd Gwybodaeth â'n penderfyniad. Mewn un achos, gofynnodd y Comisiynydd Gwybodaeth i ni ailystyried; gwnaethom hynny gan ddatgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

## Cynllun Strategol 2017–2018

67 Mae *Strategaeth 2015–2020: Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid* yn nodi ein blaenoriaethau strategol a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein diben cyffredinol i amddiffyn y cyhoedd yn fwy effeithiol gan sicrhau ein bod yn cael mwy o effaith,

68 Mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi'r gwaith allweddol y byddwn yn ei wneud yn 2017–2018 er mwyn sicrhau gwelliannau a fydd yn ein helpu i gyflawni ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2015-2020.

### Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol

#### Addysg

Erbyn 31 Mawrth 2018 byddwn wedi:

- **Nyrsio:** cyhoeddi safonau addysg cyn cofrestru seiliedig ar gymwyseddau newydd yn barod i'w mabwysiadu o fis Medi 2018 a'u cyflwyno'n llawn erbyn mis Medi 2019, gan ystyried safbwyntiau ac adborth y cyhoedd, cleifion a'n holl randdeiliaid.

- **Bydwreigiaeth:** paratoi safonau addysg cyn cofrestru seiliedig ar gymwyseddau newydd drafft yn barod i ni ddechrau eu profi gyda gweithwyr bydwreigiaeth proffesiynol, addysgwyr, cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

- **Rhaglenni addysg nyrsio a bydwreigiaeth:** cyhoeddi fframwaith addysg newydd sy'n nodi'r gofynion i sefydliadau sydd am gyflwyno rhaglenni cymeradwy, gan ystyried safbwyntiau ac adborth y cyhoedd, cleifion, y proffesiwn a rhanddeiliaid.

- **Sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth**: parhau i ddatblygu ein dull o sicrhau ansawdd addysg.

- **Safonau ôl-gofrestru nyrsio a bydwreigiaeth:** adolygu safonau rhagnodi, rheoli meddyginiaethau, a dychwelyd i ymarfer, gan ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, cleifion a rhanddeiliaid, a diwygio'r safonau hyn lle bo'n briodol.

#### Nyrsys Cyswllt

Erbyn 31 Mawrth 2018 byddwn wedi:

- Datblygu ac ymgynghori ar safonau hyfedredd a safonau addysg nyrsys cyswllt. Wrth wneud hynny, byddwn yn ymgynghori â chleifion, y cyhoedd a'n rhanddeiliaid, ac yn gwrando ar eu barn.

#### Addasrwydd i ymarfer

Erbyn 31 Mawrth 2018 byddwn wedi:

- Cyflwyno newidiadau deddfwriaethol i fynd i'r afael â phryderon addasrwydd i ymarfer mewn ffordd gymesur a chyflym ar ôl ystyried barn cleifion, y cyhoedd a'n rhanddeiliaid. Bydd archwilwyr achos wedi dechrau defnyddio pwerau newydd i roi cyngor, rhybuddion a chytuno ar ymgymeriadau mewn achosion fel sy'n briodol.

**Cynnal perfformiad rheoleiddio craidd**

Drwy gydol 2017-2018 byddwn yn:

- Parhau i berfformio'n gadarn yn erbyn ein targedau allweddol ar gyfer Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer.
- Parhau i adrodd ar ein perfformiad gwasanaeth cwsmeriaid a gwelliannau a gyflwynir o ganlyniad i adborth cwsmeriaid.

## Blaenoriaethau strategol 2, 3 a 4: Defnyddio gwybodaeth; Cydweithredu a chyfathrebu; Sefydliad effeithiol

### Trawsnewid

Mae ein rhaglen Trawsnewid wrth wraidd gweithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon o ran y ffordd rydym yn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd ac yn gwella gwasanaeth cwsmeriaid a gwerth am arian yn y dyfodol. Mae'n rhaglen pedair blynedd a fydd yn gwella'r gwaith o ddatblygu ein pobl, ein lleoliad, ein technoleg a moderneiddio ein gwasanaethau.

Mae systemau a gwasanaethau newydd sy'n manteisio ar ddatblygiadau mewn technoleg yn gam cyntaf hanfodol: bydd canolfan gyswllt newydd yn rhan bwysig o'n buddsoddiad yn 2017-2018. Bydd yn sicrhau bod ein gwasanaethau yn unol ag arfer gorau, gan gynnig gwell mynediad a dewis i bawb sy'n rhyngweithio â ni neu sydd angen ein gwasanaethau. Mae sicrhau ansawdd, cynnig gwell profiad i gwsmeriaid a chyflawni gwerth gorau am arian o ran ffioedd nyrsys a bydwragedd yn amcanion allweddol ar gyfer y cam buddsoddi cychwynnol hwn.

Cynigir cyflawni'r rhaglen trawsnewid fesul cam er mwyn sicrhau y gellir dechrau gweithio mewn ffyrdd newydd yn ddiogel.

Bydd ein dull Trawsnewid yn amodol ar benderfyniadau terfynol y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017.

### Pobl

Mae buddsoddi yn ein pobl a'u galluoedd yn hollbwysig i'n llwyddiant. Bydd ein Strategaeth Pobl yn amlinellu'r ffordd yr awn ati i ddenu, recriwtio, cadw, datblygu, ymgysylltu, cymell, cydnabod a gwobrwyo ein pobl. Bydd yn rhannu ein hymrwymiad i ddatblygu ein gweithlu, gan sicrhau bod yr NMC yn sefydliad y mae pobl am weithio gydag ef i gyflawni ein nodau. Bydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan o bopeth a wnawn, fel bod pobl yn gallu gweld bod eu cyfraniadau yn cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod.

### Trawsnewid

Erbyn 31 Mawrth 2018, yn amodol ar benderfyniadau'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2017, byddwn wedi:

- cyflawni cam cyntaf y ganolfan gyswllt, gan gynnwys cael gafael ar safle priodol.

- cyflawni cam cyntaf system rheoli cydberthnasau cwsmeriaid newydd a thechnoleg newydd gysylltiedig.

- gweithredu elfennau cyntaf y strategaeth Pobl, gan gynnwys gwell adnoddau dynol ac adnoddau datblygu sefydliadol er mwyn helpu staff a rheolwyr drwy gam cyntaf y rhaglen trawsnewid.

## Adolygiad ariannol

69 Mae'r NMC wedi cynnal ei sefydlogrwydd ariannol yn ystod 2016–2017.

70 Yn ystod y flwyddyn, cafwyd incwm o £86.155 miliwn (2015–2016: £80.265 miliwn) a oedd yn cynnwys incwm ffioedd o £84.988 miliwn (2015–2016: £79.417 miliwn) ac incwm buddsoddiadau o £586,000 (2015–2016: £643,000), ac incwm arall o £581,000 (2015–2016: dim). O gymharu, nid oedd 2016–2017 yn cynnwys unrhyw incwm grant (2015–2016: £205,000).

71 Roedd gwariant net y flwyddyn yn gwneud cyfanswm o £491,000 cyn symudiadau pensiwn (2015-2016: incwm net o £3.931 miliwn). Ar ôl addasu ar gyfer ailbrisiad actiwaraidd y diffyg pensiwn, roedd y symudiad net mewn cronfeydd yn gynnydd o £62,000 (2016–2016: cynnydd o £8.123 miliwn).

72 Yn ystod y flwyddyn gwariwyd cyfanswm o £86.646 miliwn (2015–2016: £76.344 miliwn). Dadansoddir hyn ymhellach yn nodiadau 5 i 10 i'r cyfrifon.

73 Roedd addysg yn ymrwymiad cynllun corfforaethol ar gyfer 2016–2017. Gwnaed cryn dipyn o waith ar ddatblygu safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant nyrsys y dyfodol, safonau newydd ar gyfer sefydliadau addysgol, ac adolygiad annibynnol o sicrwydd ansawdd addysgol. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd yn y buddsoddiad mewn addysg i £3.4 miliwn yn 2016–2017 (£2 filiwn yn 2015–2016).

74 Mae Addasrwydd i Ymarfer yn flaenoriaeth o hyd. Cyflawnwyd cynnydd sylweddol mewn canlyniadau achos yn 2016–2017, gan gau 1,580 o achosion (1,031 o achosion yn 2015–2016). Mae'r cynnydd hwn mewn gweithgarwch wedi bod yn rheswm allweddol dros gynnydd mewn gwariant yn gysylltiedig ag Addasrwydd i Ymarfer i £66.4 miliwn yn 2015–2017 (£58 miliwn yn 2015–2016). Gellir hefyd briodoli peth o'r cynnydd mewn costau i gostau cymorth uwch, y mae buddsoddi mewn gwaith cynnar ar drawsnewid yn elfen allweddol. Fel prif faes gweithgarwch cyflawni uniongyrchol yr NMC, mae Addasrwydd i Ymarfer yn cyfrif am y rhan helaeth o'r gwariant a briodolir ar gymorth.

75 Cyflwynwyd system ailddilysu ar gyfer pawb sy'n dymuno aros ar y gofrestr ym mis Ebrill 2016. Yn ystod 2016–2017, cafodd dros 200,000 o nyrsys a bydwragedd eu hailddilysu. Mae hyn yn unol â'r rhagamcanion gofynnol er mwyn bod ar y trywydd iawn i ailddilysu pob nyrs a bydwraig dros y cyfnod o dair blynedd 2016–2019. Mae hyn wedi cyfrannu'n rhannol at gost uwch cynnal y gofrestr i £11.4 miliwn yn 2016–2017 (£9.7 miliwn yn 2015–2016). Ymhlith y ffactorau eraill mae costau uwch ar apeliadau ac, fel mewn meysydd eraill, gynnydd mewn costau cymorth a briodolwyd.

76 Yn ystod 2016–2017 dechreuodd y Cyngor weithio ar raglen drawsnewid, sy'n cynnwys y nod o sicrhau gwerth am arian i'r sefydliad. Yn 2016–2017 gwariwyd £2.9 miliwn ar ddatblygu'r rhaglen drawsnewid.

77 Gwnaed enillion actiwaradd o £553,000 ar y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig (2015–2016: enillion o £4.202 miliwn). Mae'r cronfeydd wrth gefn o £41.175 miliwn ar 31 Mawrth 2017 yn cynnwys gwerth y brydles ar swyddfa'r NMC yn 23 Portland Place, sy'n cynnwys cymal defnydd cyfyngedig. Ailbrisiwyd y

brydles ar 31 Mawrth 2014 ar sail defnydd presennol ac roedd yn werth £17.185 miliwn.

78 Ar 31 Mawrth 2017 mae cyd-drafodaethau â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn dal i fynd rhagddynt mewn perthynas â'r posibilrwydd o ad-dalu treth incwm a thaliadau Yswiriant Gwladol a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol mewn perthynas â phanelwyr addasrwydd i ymarfer. Dilynodd hyn ddyfarniad ym mis Ebrill 2012 fod CThEM bellach yn ystyried nad yw panelwyr addasrwydd i ymarfer yr NMC yn ddeiliaid swydd nac yn gyflogeion at ddibenion treth incwm ac Yswiriant Gwladol. Fe'u hystyrir yn hunangyflogedig. Nid yw swm yr ad-daliad posibl wedi'i gadarnhau eto ac felly nid yw wedi'i ddatgelu fel ased wrth gefn yn y datganiadau ariannol.

## Polisi cronfeydd wrth gefn

79 Mae'r NMC yn gweithredu polisi cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg, sy'n darparu y dylai lefel ein cronfeydd rhydd wrth gefn fod yn seiliedig ar asesiad o effaith ariannol bosibl y risgiau a wynebir gan yr NMC, ynghyd â swm i gwmpasu ein cyfran amcangyfrifedig o'r diffyg pensiwn. Mae cronfeydd rhydd yn gronfeydd sydd ar gael i'w gwario'n rhydd. Nid yw cronfeydd rhydd yn cynnwys cronfeydd cyfyngedig, asedau sefydlog diriaethol na symiau a ddynodwyd ar gyfer gwariant hanfodol yn y dyfodol.

80 Caiff lefel y cronfeydd wrth gefn ei hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gan y Cyngor. Wrth adolygu'r lefel, mae'r Cyngor yn ystyried yr asesiad diweddaraf a'r gwaith o fesur y prif risgiau, ac yn cytuno ar amrediad priodol y dylai'r elfen o'r cronfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar risg (a elwir hefyd yn 'gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd') gael ei chynnal oddi fewn iddo.

81 Ym mis Mawrth 2016, adolygodd y Cyngor y sefyllfa ddiweddaraf o ran y polisi presennol ar gronfeydd wrth gefn a chytunodd y dylid parhau i ddal cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd o fewn amrediad targed o £10 miliwn i £25 miliwn. Adolygwyd y sefyllfa unwaith eto ym mis Mawrth 2017 ac roedd yr un peth.

82 Ystyrir bod y lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn ddigon ar gyfer blaenoriaethau gweithredu a gofynion cyfalaf gweithio'r NMC os bydd digwyddiad mawr annisgwyl, tra bod arian amgen yn cael ei sicrhau.

83 Roedd y cronfeydd wrth gefn digyfyngiad yn werth £41.175 miliwn ar 31 Mawrth 2017 (2015–2016: £41.113). Roedd y cronfeydd rhydd wrth gefn, a gyfrifwyd gan adlewyrchu amcangyfrif actiwaraidd rhwymedigaethau pensiwn, yn werth £19.430 miliwn (£17.913 miliwn ar 31 Mawrth 2016) ar ôl didynnu gwerth llyfr net asedau sefydlog o £21.745 miliwn (2015–2016: £23.200 miliwn).

## Polisi buddsoddi

84 Mae gan yr NMC y pŵer i fuddsoddi ei gronfeydd dros ben fel y gwêl yn briodol er mwyn cynhyrchu incwm. Ar hyn o bryd mae gan yr NMC bolisi buddsoddi ffurfiol, sy'n golygu mai dim ond buddsoddiadau â risg isel y gellir eu gwneud.

85 Cedwir cronfeydd yr NMC yng nghyfrifon adneuo llog sefydlog pedwar o fanciau stryd fawr y DU, a fydd yn cynyddu i bump ym mis Ebrill 2017. Yn 2016–2017 cynhyrchwyd refeniw o £586,000 o fuddsoddiadau (2015–2016: £643,000).

**Y Fonesig Janet Finch**
**Cadeirydd**
**NMC**
**5 Gorffennaf 2017**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**NMC**
**5 Gorffennaf 2017**

## Adroddiad cydnabyddiaeth

86 Archwilir yr agweddau ariannol ar yr adroddiad hwn gan yr archwilwyr allanol, haysmacintyre, a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

### Lwfansau a threuliau aelodau'r Cyngor

87 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC ac ef sydd â'r awdurdod terfynol i wneud penderfyniadau fel y'i disgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr NMC. Cadeirydd y Cyngor yn ystod 2016–2017 oedd y Fonesig Janet Finch.

88 Nid yw aelodau'r Cyngor yn cael cydnabyddiaeth am eu gwasanaeth ond maent yn cael lwfans blynyddol yn seiliedig ar y gofyniad bod aelodau yn treulio tridiau bob mis ar gyfartaledd ar fusnes yr NMC.

89 O dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, rhaid i'r Cyngor bennu'r lwfansau i'w talu i aelodau'r Cyngor. Tan 2016–2017 bu lwfans blynyddol aelodau'r Cyngor yn ddigyfnewid ar £12,000 ers 2009 ac nid yw wedi'i adolygu ers 2012. Yn unol â phroses y cytunwyd arni gan y Cyngor, sefydlwyd Panel Annibynnol yn 2016 i gynnal adolygiad o lwfansau aelodau'r Cyngor a gwneud argymhellion. Wrth adolygu'r dystiolaeth canolbwyntiodd y Panel ar faint o lwfansau a dalwyd i aelodau Cyngor cyrff rheoleiddio gofal iechyd eraill. Daeth y Panel i'r casgliad y dylai lefel lwfans aelodau Cyngor yr NMC gyfateb o leiaf i lefel ganolrifol cydnabyddiaeth aelodau Cyngor cyrff rheoleiddio gofal iechyd. Arweiniodd hyn at argymell y dylai'r lwfans blynyddol gynyddu i £13,250. Cytunodd y Cyngor ar yr argymhelliad hwn ym mis Tachwedd 2016. Yn ôl yr arfer, ôl-ddyddiwyd y cynnydd i 1 Ebrill 2016.

90 Mae'r Cadeirydd yn cael lwfans blynyddol o £48,000 yn seiliedig ar y gofyniad i dreulio dau ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd ar fusnes yr NMC.

91 Talwyd cyfanswm o £177,086 mewn lwfansau i aelodau'r Cyngor yn 2016–2017 (2015–2016: £175,340). Rhoddir manylion llawn y symiau a dalwyd yn y tabl ar dudalen 24. Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig[1] i unrhyw aelod o'r Cyngor yn 2016–2017.

92 Telir lwfansau i aelodau'r Cyngor a'i bwyllgorau drwy gyflogres ar wahân lle y didynnir symiau ar gyfer treth incwm ac Yswiriant Gwladol. Ad-delir treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth yr NMC i aelodau.

[1] Mae taliadau arbennig yn yr enghraifft hon yn cyfeirio at daliadau diswyddo arbennig a dalwyd i gyflogeion ac eraill sy'n uwch na'r gofynion statudol neu gytundebol arferol pan fyddant yn gadael cyflogaeth boed hynny pan fyddant yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n dod i gytundeb i derfynu eu contract. Rhaid i daliadau diswyddo arbennig gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM.

93 Lle y cynhelir cyfarfodydd yn Llundain, ystyrir bod treuliau yn fuddiant mewn da trethadwy. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm a'r Yswiriant Gwladol sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE â CThEM. Yn 2016–2017, cronnwyd £33,000 ar gyfer yr atebolrwydd hwn i dalu treth mewn perthynas ag aelodau'r Cyngor (2015–2016: £28,009). Ni ellir datgelu'r dreth sy'n daladwy ar fuddiannau mewn da tybiedig ar gyfer pob aelod unigol o'r Cyngor, gan fod cyfrifiad cyffredinol yn cael ei baratoi yn seiliedig ar gyfanswm y treuliau a chyfran aelodau'r Cyngor ac aelodau partner pwyllgorau.

94 Mae treuliau yn cynnwys teithio, llety, prydau bwyd a chynhaliaeth a bydd aelodau'n cronni'r treuliau hyn wrth gyflawni eu dyletswyddau.

95 Mae holl dreuliau'r aelodau wedi'u cynnwys yn y tabl canlynol. Mae'r treuliau a gafwyd gan aelodau yn amrywio'n fawr oherwydd y costau teithio a llety sy'n gysylltiedig â mynd i gyfarfodydd o gartrefi aelodau ledled y DU, gan gynnwys teithio o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon lle mae angen aros dros nos. Mewn blwyddyn hynod o brysur, bu mwy o alw ar rai aelodau, yn enwedig yr Is-Gadeiryddion, y mae'n rhaid i un ohonynt deithio o Ogledd Iwerddon. Adlewyrchir hyn yn y ffaith yr aed i fwy o dreuliau mewn rhai achosion.

| **Aelodau'r Cyngor** | **Lwfans a dalwyd i'r aelod 2016–2017** (£) | **Lwfans a dalwyd i'r aelod 2015–2016** (£) | **Treuliau 2016–2017** (£) | **Treuliau 2015–2016** (£) |
|---|---|---|---|---|
| Y Fonesig Janet Finch - Cadeirydd[2] | **48,000** | **48,000** | **12,769** | **15,363** |
| Maureen Morgan OBE | **13,250** | **12,000** | **2,680** | **1,218** |
| Maura Devlin MBE | **13,250** | **12,000** | **13,499** | **6,711** |
| Quinton Quayle[3] | **9,938** | **12,000** | **2,680** | **1,577** |
| Louise Scull [4] | **1,000** | **12,000** | **414** | **2,686** |
| Carol Shillabeer[5] | **-** | **9,000** | **-** | **1,138** |
| Amerdeep Somal[6] | **9,938** | **12,000** | **2,339** | **3,886** |
| Stephen Thornton CBE | **13,250** | **12,000** | **2,259** | **2,265** |
| Lorna Tinsley | **13,250** | **12,340** | **4,165** | **3,174** |
| Dr Anne Wright CBE | **13,250** | **12,000** | **434** | **-** |
| Robert Parry | **13,250** | **11,000** | **4,195** | **4,185** |
| Yr Athro Karen Cox | **13,250** | **11,000** | **2,548** | **1,608** |
| Ruth Walker[7] | **7,730** | **-** | **2,155** | **-** |
| Derek Pretty[8] | **7,730** | **-** | **1,512** | **-** |

96 Cafodd aelodau partner, sef aelodau pwyllgorau nad ydynt yn aelodau'r Cyngor, lwfans presenoldeb dyddiol o £260 a threuliau teithio rhesymol.

[2] Yn cynnwys treuliau yr aethpwyd iddynt o fis Hydref 2014 ond nas talwyd nes 2015–2016.
[3] Ymddiswyddodd 31 Rhagfyr 2016.
[4] Ymddiswyddodd 30 Ebrill 2016.
[5] Ymddiswyddodd 31 Rhagfyr 2015
[6] Ymddiswyddodd 31 Rhagfyr 2016.
[7] Penodwyd 1 Medi 2016.
[8] Penodwyd 1 Medi 2016.

## Dulliau a ddefnyddir i asesu perfformiad aelodau

97 Mae gan y Cyngor bolisi a phroses y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer adolygu a gwella effeithiolrwydd y Cyngor ei hun a'i aelodau. Cynhaliwyd adolygiadau blynyddol o berfformiad y Cadeirydd ac aelodau unigol yn 2016–2017.

98 Caiff perfformiad Cadeirydd y Cyngor ei adolygu gan y Dirprwy Gadeiryddion, a hynny drwy adolygiad strwythuredig a gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n cynnwys hunanasesiad gan y Cadeirydd ac asesiad cymheiriaid gan aelodau'r Cyngor. Defnyddir y canlyniadau i gytuno ar amcanion a phennu anghenion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae proses debyg ar waith ar gyfer aelodau unigol o'r Cyngor a arweinir gan y Cadeirydd.

## Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad yr Uwch Dîm Rheoli

99 Roedd yr uwch dîm rheoli (sef y tîm Gweithredol) yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, y Prif Swyddog Gweithredu (dros dro o 15 Medi 2015 ac yn barhaol rhwng 1 Chwefror 2016 a 31 Mawrth 2017) a chyfarwyddwyr. Roedd y cyfarwyddwyr yn uniongyrchol atebol i'r Prif Weithredwr neu, mewn rhai achosion, tan 31 Mawrth 2017, i'r Prif Swyddog Gweithredu. Nid oes unrhyw un o aelodau'r tîm Gweithredol yn aelodau o'r Cyngor nac yn ymddiriedolwyr yr NMC.

100 Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw'r unig gyflogai a benodir yn uniongyrchol gan y Cyngor ac sy'n atebol iddo. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd i'r graddau a ddisgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

101 At ddibenion datgan, mae'r Cyngor, yn unol â chyngor y Pwyllgor Archwilio, wedi penderfynu bod pob personél allweddol yn aelodau o'r tîm Gweithredol (gan gynnwys unrhyw ddeiliaid swyddi dros dro). Caiff manylion cydnabyddiaeth yr holl unigolion hyn eu datgan yn llawn yn **Nhablau 1, 2.1 a 2.2**.

102 Fel arfer mae contract cyflogaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill barti neu'r llall roi chwe mis o rybudd er mwyn terfynu'r contract. O ran cyfarwyddwyr, mae'n ofynnol iddynt roi tri mis o rybudd.

103 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried ac yn argymell i'r Cyngor strategaeth wobrwyo briodol ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr. Y Pwyllgor sy'n cymeradwyo pecyn gwobrwyo'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr bob blwyddyn yn unol â'r strategaeth wobrwyo a bennwyd gan y Cyngor.

## Adolygu cyflogau aelodau Gweithredol

104 Yn 2016 cynhaliodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth adolygiad o gydnabyddiaeth aelodau gweithredol, am nad oedd cyflog sylfaenol aelodau gweithredol wedi'i adolygu na'i feincnodi'n allanol ers 2011. Yn sgil yr adolygiad, cafodd y Pwyllgor ddata arbenigol, cyfredol ac ystyrlon i lywio penderfyniadau ynghylch cyflog aelodau gweithredol a fyddai'n briodol, yn addas at y diben (hynny yw, yn fodd i ddenu, datblygu a chadw'r dalent gywir, ynghyd â sgiliau arwain a thechnegol), yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, gan ystyried newidiadau arfaethedig i strwythur y tîm gweithredol a'r ffaith na newidiwyd cyflogau aelodau gweithredol ers pum mlynedd.

105 Fel rhan o'r adolygiad cafwyd gwerthusiad cyfredol gan arbenigwyr cyflogau allanol o holl rolau gweithredol yr NMC, o fewn dadansoddiad o'r farchnad darged ar gyfer cyflogau aelodau gweithredol yn y DU, a chymariaethau yn ei herbyn. Roedd y dadansoddiad yn cynnwys tueddiadau yn y farchnad ac o ran cyflogau (cyflog sylfaenol a chyfanswm cydnabyddiaeth gan gynnwys cymhellion byrdymor a thymor hwy a lefelau cyfraniadau pensiwn), data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a thair ffynhonnell o ddata cyflogau. Yn rhan o hyn cafwyd data oddi wrth Arolwg Cyfanswm Cydnabyddiaeth annibynnol, data'r Gwasanaeth Sifil a data a ddatgelwyd gan reoleiddwyr gofal iechyd eraill a Chyrff Cyhoeddus Anadrannol. Awgrymodd yr adolygiad fod cyflogau aelodau gweithredol yn yr NMC at ei gilydd yn anghyson â chyflogau canolrifol ar gyfer rolau tebyg yn y farchnad ehangach, ac mewn rhai achosion roedd hynny i raddau mawr.

106 Wrth ystyried y data, penderfynodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig sicrhau nad oedd yr NMC ar wahân iddynt. Ystyriodd y Pwyllgor i ba raddau roedd maint a graddau rolau'r NMC yn amrywio mewn perthynas â rolau tebyg, ynghyd â gwahaniaethau o ran maint a chylch gwaith y sefydliadau dan sylw (gan gynnwys y ffaith bod gan yr NMC gylch gwaith oedd yn cwmpasu'r DU gyfan). Ymhlith y ffactorau eraill a ystyriwyd roedd prif sbardunau cyflogau, cyfeirnodau'r farchnad (er mwyn pennu pwyntiau gwerthuso priodol ar gyfer pob rôl), rôl bonysau wrth bennu safle yn y farchnad, sut y dylid mesur perthynoleddau a sut y dylid eu hadlewyrchu yng nghyfanswm y gydnabyddiaeth.

107 O ganlyniad i'r adolygiad, cyflwynodd y Pwyllgor fframwaith newydd ar gyfer cyflogau aelodau gweithredol, gan gysoni cyflogau sylfaenol aelodau gweithredol yn yr NMC â'r farchnad gan ddefnyddio adnodd Gwerthuso Safle annibynnol. Cafodd y fframwaith ei lywio gan y gwerthusiad a hefyd gan y broses o chwilio am swyddi gwag gweithredol ar yr adeg honno; rhoddodd hyn wybodaeth gyfredol am argaeledd ymgeiswyr addas yn y marchnadoedd targed ar gyfer swyddi gweithredol yr NMC, pecynnau cydnabyddiaeth a disgwyliadau o ran cyflogau. Yn dilyn cyflwyno'r fframwaith newydd cynyddodd cyflog sylfaenol swyddi gweithredol presennol, gan gynnwys swydd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, er mwyn eu cysoni.

### Asesiad o berfformiad aelodau Gweithredol

108 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cymeradwyo'r broses o bennu amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a gwerthuso ei berfformiad, ac yn adolygu adroddiadau gan y Cadeirydd mewn perthynas â hynny. Mae hefyd yn adolygu

adroddiadau gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ymwneud â phennu amcanion ar gyfer y cyfarwyddwyr a gwerthuso eu perfformiad.

109 Roedd cynllun cyflogau seiliedig ar berfformiad ar waith yn ystod 2015–2016 a chafodd dau aelod o'r tîm gweithredol ar y pryd fonysau perfformiad o dan y cynllun a dalwyd yn ystod 2016–2017, fel y gwelir yn nhabl 1.

110 Penderfynodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth atal y cynllun bonws perfformiad gweithredol ar gyfer 2016–2017 am 12 mis, tra datblygwyd Strategaeth Pobl sefydliadol ehangach a fyddai'n llywio trefniadau cydnabod a gwobrwyo yn y dyfodol, gan gynnwys ar lefel Weithredol. Nododd y Pwyllgor, heb drefniadau bonws ar gyfer 2016–2017, y byddai’n parhau i graffu ar berfformiad aelodau Gweithredol â'r un manwl gywirdeb ac y dylai'r rhain fod yn gysylltiedig â rheoli talent a chynllunio olyniaeth. Adolygir y penderfyniad i atal y cynllun bonws gweithredol yn 2017–2018.

**Cydnabyddiaeth aelodau gweithredol 2016–2017**

111 Yn sgil canfyddiadau'r adolygiad o gyflogau aelodau Gweithredol a'r fframwaith newydd, daeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth i'r casgliad fod angen ailgysoni cyflog y Prif Weithredwr yn sylweddol a diwygiodd y cyflog sylfaenol i £192,850 ar gyfer 2016–2017. Hefyd, cafodd y Prif Weithredwr daliadau ar gyfer 2015–2016 ond a dalwyd yn 2016–2017 gan gynnwys bonws perfformiad ar gyfer 2015–2016 o £11,921 ac ad-daliad o £10,392 ar gyfer 17 diwrnod o wyliau blynyddol nas cymerwyd yn 2015–2016 oherwydd lefel y busnes blaenoriaeth uchel yr oedd angen i'r Prif Weithredwr ddelio â hi. O ganlyniad, yn 2016–2017, roedd cydnabyddiaeth cyflog gyffredinol y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn £215,163. Roedd y cynnydd yng ngwerth ei buddiannau pensiwn yn £40,864 sy'n golygu mai cyfanswm y gydnabyddiaeth oedd £256,027 (yn 2015–2016, ei chydnabyddiaeth cyflog oedd £173,800 ac roedd y cynnydd yng ngwerth ei buddiannau pensiwn yn £46,484, sy'n golygu mai cyfanswm ei chydnabyddiaeth oedd £220,284).

112 Ni chafodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd unrhyw fuddiannau nad oeddent yn rhai arian parod (buddiannau mewn da) yn 2016–2017.

113 Mae cydnabyddiaeth yr uwch dîm rheoli wedi'i nodi yn **nhabl 1** ac mae'r hawliad pensiwn wedi'i nodi yn **nhablau 2.1 a 2.2**. Nodir hawliadau pensiwn yn ôl y math o gynllun pensiwn y mae pob Cyfarwyddwr yn aelod ohono. Nodir aelodau'r cynllun buddiannau diffiniedig yn nhabl 2.1 yn unol ag adroddiadau pensiwn buddiannau diffiniedig safonol. Nodir aelodau'r cynllun cyfraniadau diffiniedig yn nhabl 2.2 a dangosir cyfraniadau'r cyflogwr a dalwyd ar ran pob Cyfarwyddwr.

114 Talwyd cyfanswm o £1.254 miliwn i'r tîm Gweithredol (gan gynnwys aelodau parhaol a dros dro) yn 2016–2017 (2015–2016: £1.679 miliwn). O'r swm hwn, talwyd £1.115 miliwn i aelodau parhaol y tîm Gweithredol, heb gynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr, yn 2016–2017 (2015–2016: £1.070 miliwn). Yn 2016–2017, roedd hyn yn cynnwys £895,497 mewn cyflogau, £14,457 mewn taliadau eraill, £2,800 mewn buddiannau eraill, £20,497 mewn taliadau yn lle rhybudd, £15,758 mewn taliadau bonws a £165,818 mewn cyfraniadau pensiwn. Cost aelodau dros dro y tîm Gweithredol yn 2016–2017 oedd £139,408 (2015–2016: £608,893).

## Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad aelodau eraill o staff

115 Mae pob cyflogai yn ymgymryd â chyfnod prawf o chwe mis pan fydd yn dechrau mewn cyflogaeth a disgwylir iddo roi rhybudd o un i dri mis yn dibynnu ar radd y swydd.

116 Adolygir cydnabyddiaeth pob cyflogai bob blwyddyn gan ystyried amrywiaeth o wybodaeth gan gynnwys fforddiadwyedd, data meincnodi a data recriwtio a chadw yn gyffredinol. Yn 2016–2017, cymeradwyodd y Cyngor, ar sail argymhelliad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, godiad cyflog o 1.5–3 y cant ar gyfer pob aelod o staff cymwys (yn dibynnu ar y lefel cyflog) yn weithredol o 1 Ebrill 2016 (2015–2016: 1 y cant) a chodiad cyflog pellach i gyflogeion ar raddfeydd cyflog is fel eu bod yn agosach at y gyfradd ganolrifol ar gyfer eu graddfa gyflog.

117 Fel y cytunodd y Cyngor arno yn 2015–2016, gan ddilyn cyngor y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, mae gan y tîm Gweithredol yr hyblygrwydd i dalu cyfraddau gwahanol am sgiliau arbenigol mewn meysydd wedi'u targedu lle mae hynny'n hanfodol er mwyn denu a chadw staff i gyflawni swyddogaethau sefydliadol allweddol.

118 Gweithredwyd ein proses adolygu perfformiad a datblygiad yn ôl yr arfer drwy gydol y flwyddyn ond nid oedd yn gysylltiedig ag ystyriaethau cyflog. Yn y dyfodol, efallai yr ystyrir sut y dylai unrhyw gysylltiadau rhwng cyflog a pherfformiad weithredu o dan y trefniadau newydd.

## Trefniadau pensiwn

119 Mae'r NMC yn gweithredu dau gynllun pensiwn: cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a chynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig.

120 Mae cyflogeion sy'n aelodau o'r cynllun buddiannau diffiniedig yn cyfrannu gwerth chwech y cant o'u cyflog. Cyfrannodd y cyflogwr 29.2 y cant at y cynllun pensiwn yn ystod 2016–2017 (2015–2016: 29.2 y cant), fel y nodwyd gan Actwari'r Cynllun. Roedd tua 19 y cant o gyflogeion yn aelodau o'r cynllun hwn ar 31 Mawrth 2017. Caewyd y cynllun i gyflogeion a ymunodd â'r NMC ar ôl 1 Tachwedd 2013

121 Sefydlodd yr NMC gynllun cyfraniadau diffiniedig o 1 Tachwedd 2013 y gallai cyflogeion a ymunodd â'r NMC ar neu ar ôl y dyddiad hwn ddewis ymuno ag ef. Mabwysiadwyd y cynllun fel cynllun pensiwn gweithle'r NMC at ddibenion awto-gofrestru o 1 Ebrill 2014 pan gafodd pob cyflogai cymwys ei gofrestru'n awtomatig ar gyfer y cynllun. Ar 31 Mawrth 2017, roedd 90 y cant o'r rhai a gofrestrwyd ar gyfer y cynllun yn aelodau ohono o hyd. Yn ystod 2016–2017 y cyfraniadau gofynnol sylfaenol i'r cynllun oedd 6 y cant ar gyfer y cyflogwr ac 1 y cant ar gyfer y cyflogai (2015–2016: 5 y cant ar gyfer y cyflogwr ac 1 y cant ar gyfer y cyflogai).

## Gwahaniaethau cyflog yn yr NMC

122 Yr aelod staff parhaol â'r cyflog mwyaf yn yr NMC yw'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac rydym wedi defnyddio ei chyflog fel cymharydd wrth gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng cydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu. Roedd cydnabyddiaeth yr aelod o staff parhaol ar y cyflog uchaf, sef y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, 6.47 gwaith (2015–2016: 5.97 gwaith) yn fwy na chydnabyddiaeth ganolrifol y

gweithle, sef £29,815 (2015–2016: £29,142). Mae'r gydnabyddiaeth yn y cyfrifiad hwn yn seiliedig ar gyflog blynyddol. Nid yw'n cynnwys cyflog ar wahân sy'n seiliedig ar berfformiad, buddiannau mewn da, gwyliau blynyddol â thâl, taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

123 Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth yn nodiadau 9 a 10 i'r cyfrifon.

**Y Fonesig Janet Finch**
**Cadeirydd**
**NMC**
**5 Gorffennaf 2017**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**NMC**
**5 Gorffennaf 2017**

# Tabl 1: Cydnabyddiaeth yr uwch dîm rheoli 2016–2017

| | | | Cyfanswm cyflog a dalwyd | Taliadau eraill [1] | Buddiannau cyflogeion [2] | Taliad yn lle rhybudd | Bonws [3] | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | Yswiriant Gwladol y cyflogwr | Cyfanswm a dalwyd hyd yma 2016–2017 | Cyfanswm ailddatganedig a dalwyd 2015–2016 [4] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Jackie Smith | Prif Weithredwr a Chofrestrydd | | 190-195 | 10-15 | - | - | 10-15 | 40-45 | 25-30 | 285-290 | 235-240 |
| Alison Sansome | Prif Swyddog Gweithredu | | 145-150 | - | - | - | 0-5 | 40-45 | 15-20 | 210-215 | 180-185 |
| Tom Kirkbride | Cyfarwyddwr Cofrestru Dros Dro | gadawodd 15 Gorffennaf 2016 | 25-30 | 0-5 | - | 20-25 | - | 5-10 | 0-5 | 60-65 | 60-65 |
| Sarah Page | Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer | | 135-140 | - | - | - | - | 40-45 | 15-20 | 190-195 | 190-195 |
| Emma Broadbent | Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu | dechreuodd 4 Gorffennaf 2016 | 85-90 | 0-5 | - | - | - | 5-10 | 10-15 | 110-115 | - |
| Geraldine Walters | Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi | dechreuodd 1 Medi 2016 | 85-90 | - | - | - | - | 0-5 | 10-15 | 100-105 | - |
| Judith Toland | Cyfarwyddwr Trawsnewid | dechreuodd 16 Mai 2016 | 110-115 | - | - | - | - | 10-15 | 10-15 | 140-145 | - |
| Adam Broome | Cyfarwyddwr Adnoddau | dechreuodd 23 Mai 2016 | 100-105 | - | 0-5 | - | - | 5-10 | 10-15 | 120-125 | - |
| **Staff Dros Dro:** | | | | | | | | | | | |
| Rachel Murphy | Prif Swyddog Technoleg | gadawodd 31 Awst 2016 | 85-90 | - | - | - | - | - | - | 85-90 | 250-255 |
| Annette Clinnick | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | gadawodd 30 Mehefin 2016 | 0-5 | - | - | - | - | - | - | 0-5 | 145-150 |
| Richard Finlayson | Cyfarwyddwr Cyllid | gadawodd 3 Mehefin 2016 | 45-50 | - | - | - | - | - | - | 45-50 | 40-45 |
| Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro | | gadawodd 22 Ionawr 2016 | - | - | - | - | - | - | - | - | 160-165 |

**Notes:**

1 Mae taliadau eraill yn ymwneud â gwyliau blynyddol nas cymerwyd a dalwyd allan
2 Yn ymwneud â chyfraniad at gostau llety
3 Yn ymwneud â bonws 2015–2016 a dalwyd yn 2016–2017
4 Ailddatganwyd i gynnwys Yswiriant Gwladol y Cyflogwr

## Tabl 2.1: Gwybodaeth am bensiwn buddiannau diffiniedig yr uwch dîm rheoli 2016–2017

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed<br>Bandiau o £2,500 | Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn yn 60 oed<br>Bandiau o £2,500 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn gweddilliol yn 60 oed yn ystod y flwyddyn adrodd<br>Bandiau o £2,500 | Cyfanswm a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Maw 2017<br>Bandiau o £5,000 | Cyfandaliad yn 60 oed yn gysylltiedig â phensiwn a gronnwyd ar 31 Maw 2017, gan dybio bod aelodau wedi cymryd yr uchafswm arian parod di-dreth<br>Bandiau o £5,000 | Y swm ar 31 Maw 2017 o bensiwn gweddilliol a gronnwyd yn 60 oed<br>Bandiau o £5,000 | Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebr 2016<br>I'r £1,000 agosaf | Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Maw 2017<br>I'r £1,000 agosaf | Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod<br>I'r £1,000 agosaf | Cynnydd gwirioneddol yng ngwerth buddiannau pensiwn<br>I'r £1,000 agosaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Jackie Smith | 0-2,500 | 12,500-15,000 | 0-2,500 | 15,000-20,000 | 80,000-85,000 | 10,000-15,000 | 408,000 | 594,000 | 80,000 | 41,000 |
| Alison Sansome | 2,500-5,000 | 20,000-22,500 | 2,500-5,000 | 10,000-15,000 | 50,000-55,000 | 5,000-10,000 | 189,000 | 378,000 | 128,000 | 64,000 |
| Tom Kirkbride | 0-2,500 | 0-2,500 | 0-2,500 | 5,000-10,000 | 25,000-30,000 | 0-5,000 | 124,000 | 183,000 | 11,000 | 6,000 |
| Sarah Page | 2,500-5,000 | 20,000-22,500 | 2,500-5,000 | 25,000-30,000 | 145,000-150,000 | 20,000-25,000 | 751,000 | 1,060,000 | 136,000 | 72,000 |

## Tabl 2.2: Gwybodaeth am bensiwn cyfraniadau diffiniedig yr uwch dîm rheoli 2016–2017

| | Cyfraniadau cyflogwr a dalwyd gan yr NMC<br>I'r £1,000 agosaf |
|---|---|
| Emma Broadbent | 8,000 |
| Geraldine Walters | 5,000 |
| Judith Toland | 13,000 |
| Adam Broome | 6,000 |

**Nodiadau:**

**1** Mae cyfraniadau i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig yn 1% cyflogeion a 6% cyflogwr ar gyfer pob aelod. Gall cyflogeion gyfrannu hyd at 6% ychwanegol ac am bob 1% a delir, mae'r NMC yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at uchafswm o 6% ychwanegol.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon

124 Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r penderfyniad a gafwyd gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau (SoRP) a ddiwygiwyd yn 2015 a bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r Safonau Cyfrifyddu cymwys a gyhoeddwyd (Atodiad 1).

125 Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi ac archwilio cyfrifon blynyddol. Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd (fel Swyddog Cyfrifyddu) yn gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.

126 Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen a'i symudiad net mewn cronfeydd ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn rhaid iddynt wneud y canlynol:

- dilyn y penderfyniad ar gyfrifon cymwys a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor
- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson
- dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw, onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys
- datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt yn y datganiadau ariannol.

127 Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau’r Cyngor ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac afreoleidd-dra arall.

128 Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion cywir, ym *Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu*, a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, ac yn *Managing public money* (Trysorlys EM, 2013).

129 Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr NMC yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr NMC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon at ei gilydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac mae'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r dyfarniadau sy'n angenrheidiol er mwyn pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

**Prif le busnes**

130 Mae'r NMC yn gweithio ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ei brif le busnes yw:

23 Portland Place
London
W1B 1PZ

**Cynghorwyr**

**Archwilydd Allanol Annibynnol**

Haysmacintyre
Cyfrifwyr Siartredig
26 Red Lion Square
London
WC1R 4AG

**Archwilwyr Statudol**

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

**Bancwyr**

HSBC Bank Plc
Space One, Floor 2
1 Beadon Road
London
W6 0EA

**Cyfreithwyr**

Blake Morgan LLP
Harbour Court
Compass Road
North Harbour
Portsmouth
PO6 4ST

Capsticks Solicitors LLP
1 St Georges Road
London
SW19 4DR

Field Fisher Waterhouse LLP
Riverbank House
2 Swan Lane
London
EC4R 3TT

**Archwilydd Mewnol**

Moore Stephens
150 Aldersgate Street
London
EC1A 4AB

# Datganiad llywodraethu blynyddol

131 Mae'r NMC yn gorff statudol annibynnol. Nodir ein pwerau a'n cyfrifoldebau yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd) (y Gorchymyn) ac yn ein rheolau statudol.[9] Rydym hefyd yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (rhif 1091434) ac yn yr Alban (rhif SC038362). Ein hamcan elusennol yw amddiffyn a diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ac eglurwn mewn rhan arall o'r adroddiad hwn sut mae ein gwaith yn dangos budd y cyhoedd.

## Y Cyngor

132 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol ar y cyd am gyfarwyddo materion yr NMC, gan sicrhau ei fod yn solfent, yn cael ei redeg yn dda ac yn sicrhau budd i'r cyhoedd.

133 Mae Cynllun Dirprwyo'r NMC yn nodi materion sydd wedi'u cadw'n ôl yn ffurfiol i'r Cyngor fel Bwrdd Ymddiriedolwyr yr NMC. Cylch gwaith y Cyngor yw (a) pennu cyfeiriad strategol a gwerthoedd corfforaethol yr NMC, yn unol â'i ddiben craidd; (b) sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a risg; (c) cynnal gonestrwydd wrth arfer swyddogaethau'r NMC a defnyddio cronfeydd, a chynnal atebolrwydd cyhoeddus amdanynt.

134 Cyfansoddwyd y Cyngor yn unol â Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012.[10] Mae'n cynnwys 12 aelod a nifer gyfartal o aelodau cofrestredig ac aelodau lleyg. Aelodau lleyg yw'r rhai nad ydynt erioed wedi bod yn nyrs na bydwraig gofrestredig. Fel rheoleiddiwr sy'n gweithio ledled y DU, mae aelodaeth y Cyngor yn cynnwys o leiaf un aelod sy'n byw neu'n gweithio yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

135 Caiff aelodau'r Cyngor eu penodi gan y Cyfrin Gyngor, yn dilyn proses recriwtio agored a chystadleuol. Caiff y Cyfrin Gyngor sicrwydd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (ASP) ynghylch cadernid y broses benodi neu ailbenodi a fabwysiadwyd gan yr NMC.

136 Yn ystod 2016, penododd y Cyfrin Gyngor un aelod cofrestredig newydd ac un aelod lleyg newydd i ddechrau yn eu swydd ar 1 Medi 2016. Hefyd, penododd y Cyfrin Gyngor ddau aelod lleyg arall, sef Syr Hugh Bayley a Marta Phillips OBE, i ddechrau yn eu swydd ar 1 Mai 2017 ac ailbenododd ddau aelod cofrestredig presennol i wasanaethu ymhellach o 1 Mai 2017.

[9] OS 2002/253
[10] OS 2012/2745

137 Nodir aelodaeth a ffigurau presenoldeb y Cyngor yn ystod 2016–2017 isod.

**Aelodaeth a ffigurau presenoldeb y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017**

| Aelod | Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd |
|---|---|
| Y Fonesig Athro Janet Finch | 6/6 |
| Yr Athro Karen Cox | 4/6 |
| Maura Devlin MBE | 5/6 |
| Maureen Morgan OBE | 6/6 |
| Robert Parry | 6/6 |
| Stephen Thornton CBE | 5/6 |
| Lorna Tinsley | 6/6 |
| Dr Anne Wright CBE | 4/6 |
| Ruth Walker (penodwyd 1 Medi 2016) | 4/4 |
| Derek Pretty (penodwyd 1 Medi 2016) | 3/4 |
| Quinton Quayle (ymddiswyddodd 31 Rhagfyr 2016) | 4/4 |
| Amerdeep Somal (ymddiswyddodd 31 Rhagfyr 2016) | 3/4 |
| Louise Scull (ymddiswyddodd 30 Ebrill 2016) | 0/0 |

## Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu

138 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i lywodraethu o safon uchel. Mae ein harfer yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Da Llywodraethu Corfforaethol Trysorlys EM i'r graddau y mae'n gymwys i'r sefydliad. Mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus, sef: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

139 Caiff aelodau'r Cyngor eu sefydlu'n llawn adeg eu penodi a chânt arfarniad unigol bob blwyddyn, sy'n llywio datblygiad y tîm ac unigolion yn y dyfodol, yn ogystal ag ystyried ailbenodi unigolion.

140 Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad blynyddol o'i effeithiolrwydd ei hun. Cafodd adolygiad blynyddol 2016 ei lywio gan yr argymhellion arfer gorau ar gyfer cyrff rheoleiddio a wnaed gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (CSPL) yn yr adroddiad *Striking the Balance: Upholding the Seven Principles of Public Life in Regulation*. Nododd adolygiad blynyddol 2016 y meysydd canlynol o gryfder: eglurder rôl a chyfrifoldebau; ffocws strategol; ymdeimlad o gydgyfrifoldeb; a dwyn y tîm Gweithredol i gyfrif. Ymhlith y meysydd i'w datblygu roedd: meithrin dealltwriaeth strategol o ddatblygiadau/tueddiadau yn y dyfodol; datblygu dull mwy systematig o gyrchu gwybodaeth a datblygiadau polisi yn y gweinyddiaethau datganoledig; ac ymgysylltu'n fwy â staff yn ystod cyfnod o newid sylweddol. Caiff cynnydd ei fonitro'n rheolaidd gan y Cyngor.

141 Hefyd ystyriodd y Cyngor argymhellion CSPL ar adolygu a mabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer aelodau'r Cyngor a pholisïau cyfredol ar Reoli Buddiannau a Rhoddion a Lletygarwch.

142 Ym mis Mai 2016, penododd y Cyngor Marta Phillips OBE, aelod annibynnol (nad yw'n aelod o'r Cyngor) â gwybodaeth a phrofiad ariannol addas yn gadeirydd y Pwyllgor Archwilio am dymor penodedig o flwyddyn o 1 Mehefin 2016. Yn dilyn penodi Miss Phillips yn aelod o'r Cyngor o 1 Mai 2017, bydd yn parhau i gadeirio'r Pwyllgor Archwilio am y flwyddyn i ddod yn rhinwedd ei rôl newydd.

143 Hefyd manteisiodd y Cyngor ar gyngor Cynghorwyr TGCh ac Ariannol Annibynnol a benodwyd ganddo i roi sicrwydd ychwanegol ar ansawdd cynlluniau ariannol a thechnolegol sy'n ategu'r rhaglen drawsnewid.

## Pwyllgorau'r Cyngor

144 Mae'r Cyngor yn parhau i gael Pwyllgor Archwilio; Pwyllgor Cydnabyddiaeth; a Bwrdd Penodiadau o hyd i'w helpu i gyflawni ei rôl. Caiff y broses o benodi aelodau'r Cyngor i'r Pwyllgorau Archwilio a Chydnabyddiaeth ei llywodraethu gan reolau sefydlog a chynllun dirprwyo'r Cyngor, ynghyd â set o egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2015. Adolygir aelodaeth o Bwyllgorau'r Cyngor bob blwyddyn. Nid yw aelodau'r Bwrdd Penodiadau yn aelodau o'r Cyngor a chânt eu penodi yn dilyn prosesau recriwtio agored.

145 Tan 31 Mawrth 2017, roedd yn ofynnol dan statud i'r Cyngor gael Pwyllgor Bydwreigiaeth. Dilewyd y gofyniad hwn gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2017. O 1 Ebrill 2017 bydd y Cyngor cyfan yn gyfrifol am faterion sy'n effeithio ar reoleiddio bydwreigiaeth, gyda threfniadau ar waith i sicrhau y gall gael cyngor ac arbenigedd ar faterion sy'n effeithio ar fydwreigiaeth yn briodol.

146 Nodir isod gylch gwaith, aelodaeth a chofnod presenoldeb pob Pwyllgor.

**Pwyllgor Archwilio**

147 Cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio yw helpu'r Cyngor a'i reolwyr drwy adolygu cyflawnder a dibynadwyedd sicrwydd o ran llywodraethu, rheoli risg, rheoli'r amgylchedd ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

| Aelod | Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd |
|---|---|
| Marta Phillips OBE (Cadeirydd) (penodwyd 1 Mehefin 2016) | 3/3 |
| Maureen Morgan OBE | 3/4 |
| Robert Parry | 4/4 |
| Derek Pretty (penodwyd 1 Ionawr 2017) | 1/1 |
| Louise Scull (Cadeirydd) (ymddiswyddodd 30 Ebrill 2016) | 1/1 |
| Amerdeep Somal (ymddiswyddodd 31 Rhagfyr 2016) | 1/3 |

**Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth**

148 Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer cydnabyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn yr NMC. Nodir isod

aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

| Aelod | Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd* |
|---|---|
| Stephen Thornton CBE (Cadeirydd) | 4/4 |
| Maura Devlin MBE | 4/4 |
| Karen Cox | 3/4 |

** Yn cynnwys un cyfarfod eithriadol*

**Y Pwyllgor Bydwreigiaeth**

149 Cafodd y gofyniad i'r Cyngor gael Pwyllgor Bydwreigiaeth statudol ei ddileu gan newid deddfwriaethol ar 31 Mawrth 2017. Tan hynny, cylch gwaith statudol y Pwyllgor Bydwreigiaeth oedd cynghori'r Cyngor ar faterion yn ymwneud â bydwreigiaeth. Cafodd y Pwyllgor ei gadeirio gan aelod o'r Cyngor ac roedd yn cynnwys nifer gyfartal o fydwragedd ac aelodau lleyg. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

| Aelod | Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd |
|---|---|
| Dr Anne Wright CBE (Cadeirydd) | 4/4 |
| Lorna Tinsley | 4/4 |
| Dr Patricia Gillen | 4/4 |
| Pradeep Agrawal | 3/4 |
| Farrah Pradhan | 3/4 |
| Susanne Roff | 3/4 |
| Dr Tina Harris | 4/4 |
| Angela Cunningham (penodwyd 10 Hydref 2016) | 2/2 |

**Bwrdd Penodiadau**

150 Cylch gwaith y Bwrdd Penodiadau yw helpu'r Cyngor i arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â phenodi Aelodau Panel ac Aseswyr Cyfreithiol. Mae'r Bwrdd Penodiadau yn cynnwys aelodau (partner) nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor. Yn ystod 2016–2017, cafodd aelod newydd ei benodi i'r Pwyllgor a dilynodd raglen sefydlu.

151 Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

| Aelod | Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd |
|---|---|
| Belinda Phipps (Cadeirydd) | 4/4 |
| Bridget Anderson | 4/4 |
| Mary Dowling | 4/4 |
| Fiona Whiting | 4/4 |
| Frederick Psyk (penodwyd 1 Medi 2016) | 2/2 |
| Stephen McCafferty (ymddiswyddodd 4 Gorffennaf 2016) | 1/1 |

## Rôl y Tîm Gweithredol

152 Penodir y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan y Cyngor ac mae'n atebol iddo. Cylch gwaith y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw arwain materion a rheoli adnoddau'r NMC o fewn y fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cyngor.

153 Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol yn bersonol am faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol; cadw cyfrif priodol o faterion ariannol; osgoi gwastraff ac afradlondeb; a defnyddio adnoddau yn effeithiol.

154 Cyn mis Hydref 2016, cefnogwyd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan Fwrdd Strategaeth a Pholisi a Bwrdd Perfformiad ac Adnoddau fel byrddau lefel weithredol mewnol.

155 Ar ôl ailstrwythuro'r tîm Gweithredol, cafodd Bwrdd Gweithredol ei gyflwyno yn lle'r ddau fwrdd fel y prif gorff gwneud penderfyniadau llywodraethu mewnol. Ymhlith aelodau'r Bwrdd mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r holl gyfarwyddwyr. Ei gylch gwaith yw helpu'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd i gyflawni ei dyletswyddau drwy: ddatblygu a gweithredu strategaethau, polisïau, cynlluniau busnes, a chyllidebau; monitro perfformiad gweithredol ac ariannol; gwerthuso a rheoli risg; a blaenoriaethu a dyrannu adnoddau.

## Goruchwyliaeth yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (ASP)

156 Mae'r ASP yn gyfrifol am oruchwylio gwaith y naw rheoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol a chyflwyno adroddiadau i'r senedd. Ym mis Rhagfyr 2016 cawsom ein hadolygiad gorau erioed gan yr ASP ar gyfer 2015–2016, lle gwnaethom gyrraedd pob un o'r 24 o Safonau Rheoleiddio Da, namyn un. Roedd hyn yn welliant sylweddol mewn perfformiad o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Byddwn yn parhau i weithio tuag at y safon nas cyrhaeddwyd yn ymwneud ag amseroldeb prosesau addasrwydd i ymarfer. Bydd y newidiadau i'n deddfwriaeth a ddisgwylir yn 2017 yn helpu gyda hyn.

## Strategaeth yr NMC ar gyfer 2015–2020

157 Mae gan y Cyngor strategaeth pum mlynedd ar waith, sef *Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid* 2015–2020, sy'n amlinellu ein huchelgais i fod yn rheoleiddiwr deallus, blaengar a deinamig. Parheir i roi'r Strategaeth ar waith drwy gynlluniau corfforaethol blynyddol, a ategir gan gynlluniau busnes y cyfarwyddiaethau.

158 Ddechrau 2016, dechreuodd y Cyngor weithio ar raglen drawsnewid oedd â'r nod o helpu i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd yn y Strategaeth. Fel rhan o hyn, rydym wedi bod yn edrych ar bob agwedd ar ein gwaith, gan gynnwys pobl; sefydliad; lleoliad; a gwerth am arian. Ym mis Mawrth 2017 cytunodd y Cyngor, mewn egwyddor, i symud ymlaen â cham cyntaf y rhaglen drawsnewid, gan ystyried canlyniadau Adolygiad Gateway allanol a chyngor gan y Cynghorwyr TGCh ac Ariannol Annibynnol. Cynhelir rhagor o Adolygiadau Gateway cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pwysig. Ochr yn ochr â hyn, caiff y strategaeth ariannol hirdymor ei datblygu er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir yn seiliedig ar

ddealltwriaeth lawn o'r goblygiadau ariannol a'u bod wedi'u hategu gan bolisïau priodol ar gronfeydd wrth gefn a buddsoddi.

## Ansawdd data

159 Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro perfformiad a risg ym mhob cyfarfod. Mae'n dal i fod yn rhagweithiol wrth benderfynu, gyda'r tîm Gweithredol, pa wybodaeth sydd ei hangen arno er mwyn craffu ar berfformiad a materion eraill yn effeithiol. Caiff adroddiadau ar berfformiad eu hadolygu'n barhaus gyda'r nod o wneud gwelliannau lle bo modd drwy gydol y flwyddyn.

160 Ym mis Ebrill 2016 cyflwynwyd y broses ailddilysu, y newid mwyaf i'r ffordd rydym yn rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yn ein hanes. Er mwyn sicrhau tryloywder, rydym wedi cyhoeddi adroddiadau data chwarterol ar ailddilysu.

## Rheoli risg a rheolaeth fewnol

161 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sefydlu a chynnal system rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn er mwyn galluogi'r NMC i gyflawni ei ddiben rheoleiddio craidd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg yn hytrach na'i dileu, ac i roi sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â gweithredu'r system rheolaeth fewnol a rheoli risg.

162 Y Cyngor sy'n gyfrifol yn gyffredinol am reoli risg ac mae'n cynnal adolygiad corfforaethol blynyddol o risgiau. Trafododd y Cyngor y prif risgiau y mae'r NMC yn eu hwynebu ym mhob un o'i gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn, gydag adolygiad lefel uchel yn cael ei gynnal yn gyhoeddus a gwaith craffu manylach mewn sesiwn breifat. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi trafod y broses o reoli risg, ac wedi ystyried effeithiolrwydd y broses rheoli risg, yn ei gyfarfodydd.

163 Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am sicrhau bod system rheoli risg a rheolaeth fewnol effeithiol ar waith. Ar y cyd â'r cyfarwyddwyr, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am sicrhau bod y systemau hyn yn cael eu gweithredu. Drwy'r cyfarwyddwyr, mae'n gyfrifol am nodi a gwerthuso risgiau, rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith a monitro cynnydd a chyflwyno adroddiadau arno. Mae'r tîm Gweithredol wedi adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol yn rheolaidd.

164 Cynhaliwn adolygiad mewnol blynyddol o effeithiolrwydd prosesau rheoli risg a bwriadwn wneud gwelliannau pellach iddo yn 2017–2018, yn ogystal â diwygio ein map sicrwydd corfforaethol.

## Pwyllgor Archwilio

165 Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi hysbysu'r Cyngor am gryfder y sicrwydd sydd ar gael. Ymhlith y materion yr aeth y Pwyllgor i'r afael â nhw roedd:

165.1 Adolygu'r adroddiadau a'r llythyrau cynrychiolaeth i'r archwilwyr allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) mewn perthynas â'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 ac ymatebion rheolwyr i'r archwiliad

allanol ac argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon statudol a'r adroddiad blynyddol ar addasrwydd i ymarfer.

165.2 Adolygu'r polisïau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.

165.3 Adolygu trefniadau rheoli risg.

165.4 Cymeradwyo cynllun gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer 2016–2017 a goruchwylio'r camau i gwblhau argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill.

165.5 Adolygu digwyddiadau difrifol ac achosion o ddatgelu data heb awdurdod, ynghyd ag annog rhannu â'r sefydliad cyfan a dysgu gwersi er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto.

165.6 Craffu ar unrhyw weithred tendr unigol er mwyn sicrhau ei hun bod y tîm Gweithredu yn dilyn prosesau priodol.

165.7 Monitro'r broses o weithredu a defnyddio polisïau mewnol o ran Chwythu'r Chwiban a Gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Gwna hyn er mwyn sicrhau ei hun yr ymchwilir yn llawn i unrhyw faterion a godir ac y cymerir camau ac y dysgir gwersi wedyn.

## Datgeliadau er budd y cyhoedd (chwythu'r chwiban)

166 Gwnaethom gyflwyno polisi datgeliadau er budd y cyhoedd (‘chwythu'r chwiban’) newydd a chyfredol ym mis Ebrill 2016 ar gyfer staff a phawb sy'n gweithio i'r NMC, gyda'r NMC neu ar ei ran. Caiff y Pwyllgor Archwilio wybod am bob achos o chwythu'r chwiban. Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth staff o'r polisi a sicrhau, yn unol â chod ymarfer Pryder Cyhoeddus yn y Gwaith, yr hyfforddir staff sy'n gyfrifol am dderbyn datgeliadau o dan y polisi.

167 Rhoddwyd y polisi chwythu'r chwiban ar waith unwaith yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2017 (2015–2016: unwaith). Comisiynwyd ymchwiliad annibynnol allanol i'r pryder a godwyd gan gyn-gyflogai yn ymwneud â materion y gweithlu a diwylliant y gweithle yn y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer. Er na wnaeth y cyn-gyflogai nodi chwythu'r chwiban wrth godi pryderon, o ystyried y materion dan sylw cychwynnwyd yr ymchwiliad o dan y polisi chwythu'r chwiban. Ni nodwyd unrhyw risgiau uniongyrchol o ran diogelu'r cyhoedd ond gwnaed nifer o argymhellion. Caiff yr argymhellion eu gweithredu, a chaiff y broses honno ei monitro gan y Prif Weithredwr.

## Llywodraethu gwybodaeth a diffygion o ran diogelwch

168 Mae polisïau'r NMC yn ei gwneud yn ofynnol i roi gwybod am bob digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth, gan gynnwys colli unrhyw ddata personol. Caiff digwyddiadau eu monitro gan y Bwrdd Llywodraethu a Diogelwch Gwybodaeth sy'n atebol i'r Bwrdd Gweithredol am sicrhau y caiff gwersi eu dysgu er mwyn atal digwyddiadau rhag codi eto.

169 Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o nifer y digwyddiadau diogelwch gwybodaeth yn 2016–2017, gyda ffigurau 2015–2016 yn cael eu dangos at ddibenion cymharu.

| Digwyddiadau diogelwch gwybodaeth | 2016–2017 | 2015–2016 |
|---|---|---|
| Digwyddiadau critigol | 4 | 5 |
| Digwyddiadau cymedrol | 36 | 30 |
| Mân-ddigwyddiadau | 63 | 63 |
| Digwyddiadau di-bwys | 11 | 22 |
| Cyfanswm y digwyddiadau | 114 | 120 |

170 O'r pedwar digwyddiad critigol yn 2016–2017, roedd tri yn ymwneud â manylion anghywir ar y gofrestr ac fe'u dosbarthwyd yn gritigol oherwydd y risgiau posibl i ddiogelu'r cyhoedd. Roedd y pedwerydd digwyddiad critigol yn ymwneud â TG ac fe'i dosbarthwyd yn gritigol oherwydd yr amharu byrdymor ar y busnes yn dilyn y digwyddiad. O'r 114 o ddigwyddiadau, roedd 51 yn achosion o ddatgelu data heb awdurdod. Ni chafodd yr un ohonynt eu dosbarthu'n gritigol nac yn bwysig (2015–2016: un). Nid oedd yr un o'r pedwar digwyddiad critigol yn achosion o ddatgelu data heb awdurdod ac felly nid oeddent yn bodloni'r meini prawf i roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdanynt.

171 Yn ystod 2016–2017, gwnaethom barhau i wneud gwelliannau ym maes diogelwch gwybodaeth. Roedd y rhain yn cynnwys cynnal archwiliad mewnol llywodraethu gwybodaeth ac asesiad o'n prosesau a'n harferion diogelwch gwybodaeth yn y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer a'r gyfarwyddiaeth Ailddilysu.

## Materion a risgiau allweddol yr aethpwyd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn

172 Yn ystod 2016–2017, cafodd staff parhaol eu recriwtio i'r tîm Gweithredol a'r uwch dîm rheoli ehangach, gan ddod â sefydlogrwydd a'i gwneud yn bosibl i gymryd camau cadarnach mewn meysydd allweddol y nodwyd bod angen rhoi sylw iddynt y llynedd. Ymhlith y meysydd hyn roedd TGCh, cyllid, caffael a rheoli contractau. Bydd cael uwch dîm arwain sefydlog a pharhaol yn cael effaith gadarnhaol dros amser ar leihau'r risgiau sy'n wynebu'r NMC.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**

173 Cymerwyd camau i fod yn fwy gwydn ym maes TGCh, gan gynnwys symud i ddarparwr canolfan data newydd. Mae rhai risgiau cynhenid o hyd o ran adeiladwaith ein systemau cyfredol yr ydym yn eu lliniaru drwy weithio gyda chyflenwyr yn well.

174 Rydym hefyd wedi asesu ein darpariaeth TGCh gyfredol er mwyn cynnig sylfaen i ddatblygu map technoleg ymhellach ar gyfer y dyfodol. Eir i'r afael â rhagor o welliannau fel rhan o'n rhaglen drawsnewid. Cynhaliwn brofion diogelwch rheolaidd ar ein seilwaith TG ac mae gennym raglen waith i liniaru unrhyw risgiau diogelwch TG a nodir yn ystod y profion. Rydym hefyd yn sicrhau bod unrhyw batshys diogelwch a ddarperir gan weithgynhyrchwyr yn cael eu defnyddio mewn

ffordd a reolir. Caiff seiber-ddiogelwch ei fonitro a chymerir camau yn ei gylch. Mae hefyd yn rhan allweddol o'n strategaeth TG ar gyfer y dyfodol.

**Cyllid a chaffael**

175 Rydym wedi datblygu rhaglen i atgyfnerthu rheolaethau caffael ac ariannol a gwella aeddfedrwydd ariannol yn unol ag argymhellion gan nifer o adolygiadau archwilio mewnol ac allanol. Yn ystod 2016–2017 cymerwyd camau i atgyfnerthu'r ddwy swyddogaeth, gyda gwelliannau ym maes rheolaethau ariannol yn cael eu dilysu gan adolygiad dilynol gan y gwasanaeth archwilio mewnol.

176 Ymhlith y gwelliannau ym maes cyllid mae: sefydlu tîm partneriaid busnes cyllid penodol a chymwys, a chanddo well adnoddau, er mwyn cefnogi swyddogaethau busnes a'r NMC yn gyffredinol; datblygu a gweithredu rheoliadau a dirprwyaethau ariannol diwygiedig; mynd i'r afael â materion gwiriadau a phrosesau ariannol a nodwyd gan adolygiadau archwilio mewnol; a gwella prosesau cyllidebu. Rydym hefyd wedi adolygu meysydd eraill fel cardiau credyd corfforaethol, taliadau a buddsoddiadau er mwyn nodi a gwella prosesau a rheolaethau. Mae adolygiadau archwilio mewnol o'r gyflogres, rheolaethau ariannol allweddol a rheolaethau cyllidebol wedi dangos gwelliannau yn yr holl feysydd hyn.

177 Cafwyd rhai risgiau ariannol yn ystod y flwyddyn, yn fwyaf nodedig gorwariant o £1.1 miliwn yn erbyn costau gweithredu net a gyllidebwyd. Roedd hyn o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys costau uwch na'r disgwyl mewn Addasrwydd i Ymarfer ac oedi wrth gyflawni rhai arbedion effeithlonrwydd. Bydd y gwelliannau a nodir uchod yn helpu i liniaru'r risg o faterion tebyg yn 2017–2018. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd graddau heriol newid sefydliadol yn ystod y flwyddyn yn cynyddu'r risg yn y maes hwn ac y bydd angen parhau i weithredu mewn ffordd ddisgybledig.

178 Ni fu cymaint o gynnydd ym maes caffael. Serch hynny, rydym wedi gweithio i gyflwyno gwelliannau fel partneru busnes, cynllunio caffael a gwell systemau caffael i dalu. Penodwyd aelodau parhaol newydd o staff sy'n creu sefydlogrwydd, yn dilyn cyfnod o staff dros dro. Parheir i ganolbwyntio ar adeiladu'r tîm parhaol yn 2017–2018.

179 Mae angen gwelliannau pellach yn y ddau faes o hyd, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu diwylliant o ymwybyddiaeth ariannol a masnachol a chydymffurfiaeth o fewn y sefydliad cyfan. Gwneir hyn yn 2017–2018.

**Gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth**

180 Yn dilyn adroddiad archwilio mewnol yn 2015–2016, cymerwyd camau i wella'r amgylchedd rheoli gan gynnwys polisi Gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth diwygiedig. Nododd adolygiad o reolaeth a defnydd cardiau credyd un achos o dwyll lle camddefnyddiwyd cerdyn credyd corfforaethol gan aelod o staff. Cafodd yr arian ei adennill. Cymerwyd camau disgyblu yn erbyn aelod o staff a arweiniodd at ei ddiswyddo. Atgyfnerthwyd rheolaethau'n sylweddol er mwyn lleihau'r risg o ailadrodd y sefyllfa hon. Ymhlith y camau hyn roedd rhoi'r gorau i godi arian parod gyda chardiau, lleihau nifer y cardiau 80 y cant a chaffael darparwr cardiau newydd a allai ddarparu gwell gwybodaeth reoli. Cafodd archwiliad mewnol o'r camau a gymerwyd ei gomisiynu a chyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio.

Rhoddwyd gwybod i'r heddlu, y Comisiwn Elusennau a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban am hyn.

181 Fel rhan o'n hymgyrch barhaus i leihau risg parhawn i fonitro'r defnydd o ddyfeisiau symudol yr NMC ac rydym hefyd wedi newid y ffordd y mae cyflogeion yr NMC yn hawlio ad-daliadau am deithio yn Llundain. Fel rhan o'n Cynllun Gwella Caffael, rydym wedi gwella ein rhaglen hyfforddi er mwyn gwella sgiliau cyflogeion sydd ynghlwm wrth dendro a monitro contractau. Rydym hefyd wedi cyflwyno proses gwrthdaro buddiannau ar gyfer cyflogeion sy'n aelodau o baneli dethol. Yn 2017–2018 byddwn yn adolygu rheolaethau'r sefydliad cyfan er mwyn sicrhau bod risgiau yn cael eu nodi a'u lliniaru, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'n contractau mawr.

**Goruchwylio a rheoleiddio bydwreigiaeth**

182 Daeth newidiadau i'n deddfwriaeth i atgyfnerthu mesurau diogelu'r cyhoedd drwy ddileu'r trefniadau goruchwylio statudol ar gyfer bydwragedd i rym ar 31 Mawrth 2017. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddogion Nyrsio ac arweinwyr bydwreigiaeth er mwyn cefnogi a sicrhau proses ddiogel o newid i oruchwyliaeth glinigol ym mhedair gwlad y DU. Rydym wedi cyfathrebu'n eang er mwyn egluro'r newid a darparu sicrwydd am drefniadau'r dyfodol.

183 Goruchwyliwyd y gwaith hwn gan y Pwyllgor Bydwreigiaeth a roddodd sicrwydd i'r Cyngor y cyflawnwyd yr ymrwymiad moesol a wnaed ganddo i gefnogi proses esmwyth o newid i'r trefniadau newydd. Erbyn chwarter olaf 2016–2017 roedd y Cyngor yn fodlon bod y risgiau a berwyd gan y broses hon o newid wedi'u lliniaru cymaint â phosibl ac y gellid mynd ati i gau.

**Gweithio gydag eraill er mwyn mynd i'r afael â risgiau a rennir**

184 Rydym yn parhau i ymgysylltu â rheoleiddwyr systemau a rheoleiddwyr proffesiynol eraill ar amrywiaeth o faterion.

185 Mae ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr yn ceisio gweithio gyda chyflogwyr er mwyn mynd i'r afael â risgiau i ddiogelwch cleifion drwy eu helpu i reoli pryderon am addasrwydd i ymarfer nyrsys a bydwragedd. Yn 2016–2017 gwnaethom gyflwyno'r Gwasanaeth hwn i holl Ymddiriedolaethau'r GIG, Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Byrddau Iechyd ym mhedair gwlad y DU, yn ogystal â dros 20 o'r darparwyr gofal iechyd mwyaf yn y sector annibynnol. Mae gwaith wedi dechrau i ddadansoddi data o atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer a lleoliadau cyflogwyr gyda'r nod o gymryd camau ymyrryd seiliedig ar risg yn gynharach.

186 Un o egwyddorion sylfaenol allweddol ein rhaglen drawsnewid yw'r angen i gydweithio'n strategol ag eraill, a fydd yn ein galluogi i ddiogelu'r cyhoedd yn well. Rydym yn anelu at wella ein ffyrdd o weithio gyda phartneriaid fel rheoleiddwyr eraill a darparwyr gofal iechyd, a fydd yn ei dro yn ein galluogi i fod yn fwy effeithiol wrth nodi a rheoli risgiau i'r cyhoedd.

## Barn flynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016–2017

187 Cynhaliwyd saith aseiniad archwilio mewnol wedi'u cynllunio yn ystod y flwyddyn yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Archwilio, yr oedd un ohonynt yn gynghorol ei natur. Hefyd, cynhaliawyd archwiliad ychwanegol yn edrych ar brosesau cardiau credyd, ynghyd ag adolygiad dilynol o'r cynllun gwella caffael er mwyn asesu cynnydd ers archwiliad 2015–2016 o'r maes hwn. Derbyniwyd pob un o argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol ac mae sylw yn cael ei roi iddynt, gyda'r broses o'u gweithredu yn cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio.

188 Barn flynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw bod:

> "*...peth risg na chaiff amcanion y rheolwyr eu cyflawni'n llawn.Mae angen gwneud gwelliannau yn y meysydd hynny er mwyn gwella digonolrwydd a / neu effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol."*

189 Nododd adroddiad blynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol welliant sylweddol o ran llywodraethu, risg ac amgylchedd rheoli gwasanaethau cymorth corfforaethol. Tanlinellodd fod mwy o sefydlogrwydd yn y tîm arwain yn cael effaith gadarnhaol ar feysydd cyllid, caffael a gwasanaethau technoleg. Daeth yr adolygiad dilynol o'r cynllun gwella caffael i'r casgliad, er bod angen cymryd camau o hyd i fynd i'r afael â materion, y gwnaed cynnydd cadarnhaol mor belled.

190 Ymhlith yr heriau allweddol a nodwyd ar gyfer y dyfodol roedd: monitro perfformiad ein seilwaith TG ac effeithiau ar y gwasanaethau a ddarparwn; gwella'r canllawiau i staff, a'r ffyrdd eraill o gyfathrebu â staff, ynghylch prosesau cyllid, er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau; a pharhau i gyflawni'r cynllun gwella caffael.

## Materion a risgiau allweddol yn y dyfodol

191 Mae gan y Cyngor agenda waith uchelgeisiol o'i flaen gyda nifer o raglenni a mentrau mawr ar waith yn ystod 2017–2018. Rydym yn llwyr ymwybodol o'r risgiau a'r heriau sylweddol sy'n deillio o'r fath agenda, ynghyd â'r posibilrwydd o bwysau allanol nas cynlluniwyd.

192 Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd sylfaenol parhau i gyflawni ein swyddogaethau statudol craidd er mwyn diogelu'r cyhoedd. Felly, rhaid i ni sicrhau nad yw graddau na chyflymder y newid yn drech na'n gallu i gyflawni a bod effaith gronnol yr agenda sylweddol hon yn cael ei rheoli'n effeithiol. Rydym yn ceisio datblygu gallu a gwydnwch y sefydliad i fynd i'r afael â'r risgiau hyn. Mae proses flaenoriaethu effeithiol, disgyblaeth rhaglen fanwl gywir, nodweddion rheoli risg cadarn, a system cyfathrebu ac ymgysylltu glir yn hanfodol wrth i ni fynd ati. Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu'r angen i ailflaenoriaethu neu ailgymalu gweithgarwch fel sydd angen, gan ystyried pwysau a gofynion mewnol neu allanol.

193 Ymhlith y meysydd gwaith a rhaglenni a all beri problemau a risgiau yn y dyfodol mae:

193.1 Datblygu'r safonau, y prosesau a'r systemau i ddechrau rheoleiddio proffesiwn newydd, nyrsys cyswllt, erbyn dechrau 2019 fel y mae'r Llywodraeth yn ei ddymuno.

193.2 Datblygu gwaith ar y rhaglen drawsnewid er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd yn ein Strategaeth. Bydd datblygu Strategaeth Pobl effeithiol ar gyfer y sefydliad er mwyn cefnogi, herio a datblygu ein gweithlu ar gyfer y dyfodol yn allweddol i hyn.

193.3 Cyflawni ein cynllun addysg strategol er mwyn sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn creu nyrsys a bydwragedd y dyfodol.

193.4 Cyflwyno newidiadau deddfwriaethol er mwyn gwella ein swyddogaethau addasrwydd i ymarfer ymhellach.

193.5 Dysgu unrhyw wersi a all ddod i'r amlwg yn sgil yr adolygiad annibynnol yr ydym ni, a'r Adran Iechyd, wedi gofyn i'r ASP ei gynnal o'r ffordd yr ymdriniwyd ag achosion yn deillio o ddigwyddiadau ym Mae Morecambe.

193.6 Goblygiadau posibl lleihad parhaus yn y nifer sy'n cofrestru, gan gynnwys goblygiadau ariannol.

193.7 Y goblygiadau i reoleiddio gofal iechyd a'r NMC yn deillio o'r bwriad i'r DU adael yr UE.

193.8 Ymateb i unrhyw her gyfreithiol i'n penderfyniad i wrthod cofrestru rhai bydwragedd annibynnol, nad oeddent wedi darparu tystiolaeth o yswiriant indemniad digonol.

194 Mae ein rhaglen drawsnewid yn arbennig yn wynebu newid mawr o bosibl wrth i ni ad-drefnu ein prosesau, systemau a strwythurau'r gweithlu. Yn y tymor hwy, bwriedir i hyn ein helpu i barhau i wella mesurau diogelu'r cyhoedd, gan gynnwys drwy'r defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o'n hadnoddau, yn ogystal â darparu gwell gwasanaeth cwsmeriaid. Rydym yn cyflwyno Adolygiadau Gateway er mwyn rhoi sicrwydd ar bob cam a chyfleoedd priodol i ystyried a ddylid oedi neu arafu'r rhaglen os oes angen. Bydd Cynghorwyr TGCh ac Ariannol Annibynnol y Cyngor hefyd yn darparu haen ychwanegol o sicrwydd pellach.

195 Rydym hefyd yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Rydym yn bwriadu parhau i ganolbwyntio ar atgyfnerthu'r fframwaith rheolaeth fewnol mewn perthynas â chyllid, caffael a rheoli contractau. Byddwn yn parhau i reoli a monitro'n agos berfformiad ein systemau TG presennol; yn y tymor hwy ymdrinnir â'r materion hyn yn bennaf drwy ein rhaglen drawsnewid.

## Asesiad cyffredinol o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd

196 Fel Cadeirydd y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu, rydym wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol. Wrth wneud hynny, rydym wedi dibynnu ar farn ac adroddiadau Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, yn ogystal ag amrywiaeth o ffynonellau sicrwydd. Maent yn cynnwys: asesiadau cyfarwyddwyr o ansawdd rheolaethau a sicrwydd sydd ar waith yn y cyfarwyddiaethau gweithredol y maent yn gyfrifol amdanynt; adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, amryw adolygiadau mewnol ac allanol; a barn

a llythyr rheoli archwilwyr allanol. Rhoddodd y Pwyllgor Archwilio sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn ag effeithiolrwydd ein trefniadau.

197 Yn gyffredinol, rydym yn ystyried bod trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli boddhaol ar waith. Cydnabyddwn yr angen i barhau i fynd i'r afael â'r amgylchedd risg a rheoli, a'i atgyfnerthu, yn y meysydd allweddol a nodwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, hynny yw, cyllid, caffael a rheoli contractau. Bydd hyn yn ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod.

| | |
|---|---|
| **Y Fonesig Janet Finch** | **Jackie Smith** |
| **Cadeirydd** | **Prif Weithredwr a Chofrestrydd** |
| **NMC** | **NMC** |
| **5 Gorffennaf 2017** | **5 Gorffennaf 2017** |

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad o Lifau Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Dim ond i aelodau’r elusen, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny’n unol ag Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno, ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu Ymddiriedolwyr yr Elusen o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu ohonynt mewn Adroddiad Archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

**Priod gyfrifoldebau'r Cyngor (Ymddiriedolwyr) a'r archwilydd**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fe'n penodwyd yn archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011, ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac rydym yn cyflwyno adroddiadau yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 154 ac adran 44 o'r Deddfau hynny yn y drefn honno. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a llunio barn arnynt yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

**Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol**

Ceir disgrifiad o gwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditscopeukprivate

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2017 a'r symiadau net mewn cronfeydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;

- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, a Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd).

**Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes dim gennym i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Deddf Elusennau 2011 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os credwn fod y canlynol yn wir:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol; neu

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu

- nid yw'r datganiadau ariannol yn gydnaws â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

**haysmacintyre**
Archwilwyr Statudol

26 Red Lion Square
London
WC1R 4AG

6 Gorffennaf 2017

Mae haysmacintyre yn gymwys i weithredu fel archwilydd yn unol â thelerau adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad o Lif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

### Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y 'Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd', y Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

### Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Fel rhan o hyn asesir y canlynol:

- a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol;
- rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; a
- cyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Darllenaf hefyd yr holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn anghywir mewn ffordd berthnasol yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad, neu'n anghyson mewn ffordd berthnasol â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2017 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd yn ôl y gofynion hynny.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'u paratoi yn unol â'r penderfyniad a wnaed gan y Cyfrin Gyngor o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001;

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adolygiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes angen i mi gyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r materion canlynol y'ch hysbysaf ohonynt os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni dderbyniwyd datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu

- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn gydnaws â'r cofnodion na'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse** **Dyddiad:** 10 Gorffennaf 2017

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

# Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

| | Nodyn | Digyfyngiad digyfyngiad 2016-17 £'000 | Cronfeydd cyfyngedig 2016-17 £'000 | Cyfanswm 2016-17 £'000 | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm o:** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol: | | | | | |
| Ffioedd | 2 | **84,988** | **-** | **84,988** | 79,417 |
| Grantiau (Yr Adran Iechyd) | | **-** | **-** | **-** | 205 |
| Buddsoddiadau | 3 | **586** | **-** | **586** | 643 |
| Incwm Arall | 3 | **581** | **-** | **581** | - |
| **Cyfanswm** | | **86,155** | **-** | **86,155** | 80,265 |
| **Gwariant ar:** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 4,5 | **(86,646)** | **-** | **(86,646)** | (76,344) |
| **Cyfanswm** | | **(86,646)** | **-** | **(86,646)** | (76,344) |
| **Net (gwariant)/incwm** | | **(491)** | **-** | **(491)** | 3,921 |
| **Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill** | | | | | |
| Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig | 21 | **553** | **-** | **553** | 4,202 |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | **62** | **-** | **62** | 8,123 |
| **Cysoni cronfeydd:** | | | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen | 24 | **41,113** | **-** | **41,113** | 32,990 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | **41,175** | **-** | **41,175** | 41,113 |

Deilliodd holl weithgareddau'r Cyngor yn y ddwy flwyddyn ariannol uchod o weithrediadau parhaus. Mae'r holl enillion a chholledion cydnabyddedig wedi'u cynnwys yn y datganiad uchod. Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 83 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Dangosir ffigurau cymharol llawn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 yn nodyn 28.

# Y Fantolen ar 31 Mawrth 2017

| | Nodyn | **2016-17** £'000 | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau diriaethol | 13 | **21,745** | 23,200 |
| **Cyfanswm asedau sefydlog** | | **21,745** | 23,200 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 15 | **3,919** | 3,574 |
| Buddsoddiadau | | **59,653** | 62,100 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | **22,597** | 22,609 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **86,169** | 88,283 |
| **Rhwymedigaethau** | | | |
| Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 16 | **(52,965)** | (56,570) |
| Darpariaethau: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 17 | **(76)** | (67) |
| **Asedau cyfredol net** | | **33,128** | 31,646 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **54,873** | 54,846 |
| **Credydwyr:** Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 18 | **(611)** | (583) |
| **Darpariaethau:** Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 19 | **(899)** | (525) |
| **Asedau net heb gynnwys rhwymedigaeth pensiwn** | | **53,363** | 53,738 |
| **Rhwymedigaeth cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig** | 21 | **(12,188)** | (12,625) |
| **Cyfanswm asedau net** | 25 | **41,175** | 41,113 |
| **Cronfeydd yr NMC** | | | |
| **Cronfeydd incwm cyfyngedig** | | **-** | - |
| **Cronfeydd digyfyngiad** | 24 | **41,175** | 41,113 |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | | **41,175** | 41,113 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 83 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Y Fonesig Janet Finch**
**Cadeirydd, NMC**
**5 Gorffennaf 2017**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd, NMC**
**5 Gorffennaf 2017**

## Datganiad o lif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

| | | **2016-17** | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | | | |
| **Arian parod net (a ddefnyddiwyd mewn)/a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredu** | | | **716** | | 10,134 |
| **Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | | | |
| Elw ar aeddfedrwydd buddsoddiadau | | **62,100** | | - | |
| Llog o fuddsoddiadau | 3 | **586** | | 643 | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 13 | **(2,329)** | | (2,730) | |
| **Arian parod net a ddarparwyd gan (a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi** | | | **60,357** | | (2,087) |
| **Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y cyfnod adrodd** | | | **59,641** | | 8,047 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r flwyddyn** | | | **22,609** | | 14,562 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y flwyddyn** | | | **82,250** | | 22,609 |

## Cysoni incwm net/(gwariant) â llif arian parod net o weithgareddau gweithredu

| | **2016-17** | 2015-16 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Incwm net/(gwariant) o'r cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol) | **(491)** | 3,921 |
| Llog o fuddsoddiadau | **(586)** | (643) |
| Taliadau dibrisio | **3,692** | 3,390 |
| Colled ar waredu cyfarpar | **92** | 137 |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn dyledwyr | **(345)** | (1,437) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr a darpariaethau | **(3,195)** | 4,406 |
| Symudiadau mewn pensiynau | **117** | 360 |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **716** | 10,134 |

## Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | 2016-17 | Ailddosbarthiad 2015-16 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | **22,597** | 22,609 |
| Buddsoddiadau (adneuon byrdymor) | **59,653** | - |
| Cyfanswm | **82,250** | 22,609 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 83 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Ar 31 Mawrth 2016, cofnodwyd Buddsoddiadau (adneuon byrdymor) yn £62.1 miliwn. Ar y pryd roedd buddsoddiadau mewn adneuon trysorlys 12 mis ac felly nid oeddent yn bodloni'r diffiniad o arian parod cyfatebol, fel y diffinnir yn yr adran polisïau cyfrifyddu yn Nodyn 1. Mae'r gwall hwn mewn cyfnod blaenorol wedi'i gywiro yn 2016–2017 drwy ailddatgan balans y flwyddyn flaenorol i ddim.

Ar 31 Mawrth 2017, mae pob buddsoddiad yn fyrdymor ei natur gydag aeddfedrwydd o dri mis neu lai ac felly fe'i hystyrir yn arian parod cyfatebol.

# Nodiadau i’r Cyfrifon

## 1. Polisïau cyfrifyddu

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, dyfarniadau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel a ganlyn:

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Penderfyniad ynglŷn â'r Cyfrifon (gweler Atodiad 1) gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o Ymarfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (yn effeithiol 1 Ionawr 2015) - (SORP Elusennau FRS102) a bod y cyfrifon wedi rhoi sylw i ofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn egluro gofynion SORP Elusennau neu'n adeiladu arnynt.

Mae'r NMC yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS102.

**Busnes gweithredol**

Ym marn y Cyngor, nid oes unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch gallu'r NMC i barhau fel busnes gweithredol.

Nod yr NMC yw diogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Cyngor wedi adolygu amgylchiadau'r NMC ac o'r farn bod digon o adnoddau yn parhau i fod ar gael i ariannu ei weithgareddau yn y dyfodol agos. Ym marn y Cyngor, mae'r NMC yn fusnes gweithredol.

**a) Confensiwn cyfrifyddu**

Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y’i diwygiwyd i gynnwys ailbrisio rhai asedau sefydlog. I gychwyn cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau ar gost hanesyddol neu werth trafodyn oni nodir fel arall ar y nodiadau polisi cyfrifyddu perthnasol.

**b) Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu critigol a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif**

Wrth roi'r polisïau cyfrifyddu hyn ar waith, mae'n ofynnol i Aelodau'r Cyngor lunio dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch gwerth cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill.

Caiff amcangyfrifon a dyfarniadau eu gwerthuso'n barhaus ac maent yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ran digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Er bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar wybodaeth orau'r rheolwyr am y swm, digwyddiad neu weithred, gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol yn y pen draw i'r amcangyfrifon hynny. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo os mai dim ond effeithio ar y cyfnod hwnnw a wna'r diwygiad, neu yng nghyfnod y diwygiad a chyfnodau yn y dyfodol os yw'r diwygiad yn effeithio ar gyfnodau

nawr ac yn y dyfodol.  Ym marn Aelodau'r Cyngor mae'r eitemau canlynol yn feysydd i'w hamcangyfrif ac i lunio dyfarniad yn eu cylch:

**Dibrisiant**

Mae bywydau economaidd defnyddiol asedau sefydlog diriaethol yn seiliedig ar farn a phrofiad rheolwyr. Pan fo rheolwyr yn nodi bod bywydau economaidd defnyddiol yn wahanol, mewn ffordd berthnasol, i'r amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i gyfrifo dibrisiant, caiff y tâl hwnnw ei addasu'n ôl-weithredol. Er bod asedau sefydlog diriaethol yn arwyddocaol, ni chaiff gwahaniaeth rhwng bywydau economaidd defnyddiol gwirioneddol ac amcangyfrifedig effaith berthnasol ar y canlyniadau gweithredu. Yn hanesyddol, ni fu angen gwneud unrhyw newidiadau.

**Pensiynau**

Y prif dybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaethau yn y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yw'r rhai a nodir yn nodyn 21.

Mae'r polisïau cyfrifyddu canlynol wedi'u defnyddio'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn berthnasol o ran datganiadau ariannol yr Elusen.

**c) Incwm**

Cydnabyddir yr holl incwm unwaith y bydd gan yr NMC hawl i incwm. Mae'n debygol y derbynnir yr incwm ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

**Incwm buddsoddiadau**

Rhoddir cyfrif am incwm buddsoddiadau pan fo'n dderbyniadwy. Datgelir incwm buddsoddiadau mewn perthynas â grantiau a gafwyd fel incwm buddsoddiadau cyfyngedig.

**Incwm o weithgareddau elusennol**

Mae a wnelo ffioedd cofrestru ag adnewyddu neu gynnal statws cofrestru yn flynyddol. Daw ffioedd cofrestru i law bob blwyddyn a phob chwarter ond fe'u credydir i incwm yn fisol. Felly, fe'u dyrannwyd i'r flwyddyn ariannol briodol yn seiliedig ar y cysyniad o groniadau, gan arwain at incwm gohiriedig. Credydwyd ffioedd cofrestru a dilysu eraill fel ffioedd cofrestru untro i'r incwm ar y diwrnod derbyn.

**Incwm Grant**

Cydnabyddir incwm grant fel incwm cyfyngedig a chaiff ei gydnabod pan ellir mesur hawl yn ddibynadwy.

**ch) Gwariant**

Cydnabyddir rhwymedigaethau fel gwariant cyn gynted ag y bo rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol sy'n ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw. Mae'n debygol y bydd angen setliad ac y gellir mesur y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Cydnabyddir gwariant ar sail croniadau gan yr eir i rwymedigaeth, yn cynnwys TAW (na ellir ei hadennill fel rheol).

Mae costau gweithredu'r NMC yn cynnwys costau staff, costau llywodraethu, costau eiddo a chostau cysylltiedig eraill. Dyrennir costau o'r fath i gategorïau o wariant elusennol uniongyrchol. Dyrennir costau staff yn ôl costau staff sy'n gweithio'n uniongyrchol yn yr adrannau perthnasol. Dyrennir costau eiddo yn unol â defnydd a niferoedd staff ym mhob adran a dosrennir costau TGCh a chostau eraill i adrannau ar sail briodol (er enghraifft, niferoedd staff).

**Gweithgareddau elusennol**

Ymhlith y gwariant ar weithgareddau elusennol mae'r holl wariant sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r elusen sy'n cynnwys: hyrwyddo safonau a datblygu polisïau, addysg, cynnal y gofrestr, addasrwydd i ymarfer a chyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, gweler nodyn 4.

Dyrennir gwariant i'r gweithgaredd penodol pan fo'r gost yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgaredd hwnnw. Fodd bynnag, mae cost cyfeiriad cyffredinol a gweinyddiaeth pob gweithgaredd, yn cynnwys y cyflog a gorbenion y swyddogaeth ganolog, yn cael ei dyrannu yn seiliedig ar y nifer sy'n cymryd rhan ymhob gweithgaredd fel costau cymorth. Dyrannwyd costau cymorth rhwng Costau Llywodraethu a Chostau Cymorth Eraill.

**d) Costau datblygu**

Caiff costau mewnol yr aed iddynt wrth ddatblygu meddalwedd eu dileu yn y flwyddyn yr eir iddynt.

**dd) Cyfrifyddu cronfeydd**

Mae'r Cyngor yn cadw amryw fathau o gronfeydd fel a ganlyn:

i) Cronfeydd cyfyngedig:

   Mae'r rhain yn gronfeydd a ddefnyddir yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr. Amlinellir nod pob cronfa gyfyngedig a'r defnydd a wneir ohoni yn nodyn 24 i'r datganiadau ariannol.

ii) Cronfeydd digyfyngiad:

   Mae'r cronfeydd hyn ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y Cyngor i hyrwyddo amcanion cyffredinol y sefydliad ac nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion eraill.

**e) Asedau ar brydles**

Codir rhenti sy'n gymwys i brydlesau gweithredol, lle mae holl fuddiannau a risgiau perchenogaeth yn perthyn i'r prydleswr i raddau helaeth, i'r datganiad o weithgareddau ariannol mewn symiau cyfartal dros gyfnodau'r prydlesau.

**f) Buddiannau cyflogeion**

**Buddiannau byrdymor**

Caiff buddiannau byrdymor gan gynnwys tâl gwyliau eu cydnabod fel traul yn y cyfnod y derbyniwyd y gwasanaeth ynddo.

**Buddiannau terfynu cyflogai**

Rhoddir cyfrif am fuddiannau terfynu ar sail croniadau.

**Costau pensiwn**

Darperir buddiannau pensiwn drwy gynllun buddiannau diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig. Ariennir y ddau gynllun drwy gyfraniadau gan yr NMC a chyflogeion. Gwneir taliadau i ymddiriedolaethau pensiwn, sydd ar wahân i'r NMC yn ariannol.

Gwneir taliadau i'r cynllun buddiannau diffiniedig yn unol â chyfrifiadau cyfnodol gan actiwarïaid sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol, a chyfrifir am gostau pensiwn y cynllun buddiannau diffiniedig ar sail codi cost ddisgwyliedig darparu pensiynau dros y cyfnod y mae'r NMC yn cael budd o wasanaeth y cyflogeion. Lledaenir effaith amrywiadau i gostau rheolaidd dros gyfnod o amser a bennir gan yr ymddiriedolaeth bensiwn.

Gwneir taliadau i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig ar sail cyfraniadau canrannol penodedig gan yr NMC a chyflogeion, a chodir y costau i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi.

**ff) Asedau sefydlog**

Dibrisir asedau sefydlog diriaethol er mwyn gostwng eu gwerth nominal i £1 dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig mewn rhandaliadau cyfartal fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfarpar | 3–5 mlynedd |
| Dodrefn | 10 mlynedd |
| Prosiectau TG | 3–5 mlynedd |
| Ailwampio - 23 Portland Place | 10 mlynedd |
| Safle Lesddaliad - 23 Portland Place[11] | 50 mlynedd |

[11] Gweler Nodyn 13.1

Mae asedau'n ymwneud â'r safleoedd lesddaliad canlynol wedi cael eu dibrisio dros cyfnod y les:

| | |
|---|---|
| 61 Aldwych | 10 mlynedd |
| Clarendon House - Llawr Daear | 10 mlynedd |
| Clarendon House - Llawr Cyntaf | 2 flynedd |
| 1 Kemble Street | 8.5 mlynedd |
| 2 Stratford Place | 9.7 mlynedd |

Cyfalafwyd asedau sefydlog diriaethol sy'n werth dros £1,000.

Ailbrisiodd yr NMC 23 Portland Place yn ystod 2013-2014 ac yn unol ag FRS102 bydd yn defnyddio'r prisiad hwn fel y gost dybiedig wrth fynd ymlaen.

**g) Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr masnach a dyledwyr eraill ar y swm setlo sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ddisgownt masnach a gynigir. Pennir gwerth rhagdaliadau ar y swm a ragdalwyd ar ôl unrhyw ddisgownt masnach dyledus.

**ng) Arian parod yn y banc ac mewn llaw**

Mae arian parod yn y banc ac mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau hylif iawn byrdymor sydd ag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif adnau neu gyfrif tebyg.

**h) Credydwyr a darpariaethau**

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau lle mae gan yr elusen rwymedigaeth bresennol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd fwy na thebyg yn arwain at drosglwyddo cronfeydd i drydydd parti a gellir mesur y swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod ar eu swm setlo ar ôl cyfrif am unrhyw ddisgownt masnach sy'n ddyledus.

**i) Offerynnau ariannol**

